A photograph of several children high-fiving outdoors in a grassy field. The children are smiling and their hands are stacked in the center. One child in the foreground is wearing a white t-shirt with blue polka dots and blue overalls. Another child is wearing a red skirt. The background is a blurred green field.

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg
**Adroddiad yr ymchwiliad i'r Grant
Gwella Addysg: Plant Sipsiwn,
Roma a Theithwyr, a Phlant o
Leiafrifoedd Ethnig**

Chwefror 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPPIA@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddPPIA**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg
**Adroddiad yr ymchwiliad i'r Grant
Gwella Addysg: Plant Sipsiwn,
Roma a Theithwyr, a Phlant o
Leiafrifoedd Ethnig**

Chwefror 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Sefydlwyd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): addysg, iechyd a llesiant plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Lynne Neagle AC (Cadeirydd)
Llafur Cymru
Torfaen



Mohammad Asghar AC
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



Michelle Brown AC
UKIP Cymru
Gogledd Cymru



Hefin David AC
Llafur Cymru
Caerffili



John Griffiths AC
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



Darren Millar AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



Julie Morgan AC
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd

Cynnwys

01. Y cefndir	5
02. Argymhellion.....	7
03. Y model cyllido.....	10
04. Monitro a gwerthuso	15
05. Lefelau cyllid, effaith ar adnoddau awdurdodau lleol a data ynghylch niferoedd dysgwyr.....	27
06. Gwella deilliannau.....	35
Atodiad A - Rhestr o'r dystiolaeth	40
Atodiad B - Tystiolaeth ysgrifenedig	41

01. Y cefndir

Ein hymchwiliad

1. Ym mis Hydref 2016, penderfynodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gynnal ymchwiliad byr yn canolbwyntio ar effaith y gwaith gan Lywodraeth Cymru o gyfuno grantiau a oedd wedi'u neilltuo'n flaenorol yn Grant Gwella Addysg (GGA) newydd ar gyfer plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig.
2. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y trefniadau cyllido newydd o flwyddyn ariannol 2015-16 ymlaen, gan gyfuno 11 o grantiau unigol a oedd yn cael eu talu i awdurdodau lleol at ddibenion penodol. Dau o'r grantiau hynny oedd y Grant Addysg Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr a'r Grant Cyrhaeddiad Plant o Leiafrifoedd Ethnig.¹ Caiff y GGA ei weinyddu gan y pedwar consortiwm rhanbarthol, ac mae awdurdodau lleol yn rhannu eu gwasanaethau gwella ysgolion drwy'r rhain.
3. Yn ystod yr ymchwiliad, derbyniodd y Pwyllgor **28 o gyflwyniadau ysgrifenedig** a chynhaliodd sesiynau tystiolaeth gyda **naw** sefydliad, gan gynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori rhwng **dydd Llun 17 Hydref 2016 a dydd Gwener 18 Tachwedd 2016**.
4. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu adolygu cynnydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch y mater hwn yn y dyfodol agos.
5. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i gyfrannu tystiolaeth i'r ymchwiliad hwn. Mae rhestr o'r rhai a gyflwynodd dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

Cylch gorchwyl

6. Penderfynodd y Pwyllgor mai nod cyffredinol yr ymchwiliad fyddai ystyried effaith y trefniadau grant newydd ar blant a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig. Canolbwyntiodd yr ymchwiliad yn benodol ar yr effaith ar eu deilliannau addysgol a mabwysiadodd y cylch gorchwyl canlynol:
 - sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r Grant Gwella Addysg a sut y mae'r grant cyfun newydd yn cefnogi plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig, gan gyfeirio'n benodol at wella deilliannau addysgol;
 - effeithiolrwydd polisiâu a strategaethau eraill Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi addysg plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig; ac
 - unrhyw faterion allweddol sy'n codi yn sgil uno'r grantiau a oedd yn arfer bod ar wahân yn un Grant Gwella Addysg.

Pam y mae'r Pwyllgor yn edrych ar y mater hwn

7. Wrth graffu ar bob un o gyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 a 2016-17 yn y Pedwerydd Cynulliad, mynegodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg blaenorol bryderon am yr effaith bosibl ar ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig o ganlyniad i

¹ Y grantiau eraill a gyfunwyd oedd Grant Refeniw y Cyfnod Sylfaen, y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, Llwybrau Dysgu 14-19, y Grant Cymraeg mewn Addysg, y Grant Ymarferwyr Arweiniol ac Ymarferwyr Datblygol, y Grant Cymorth Profion Darllen a Rhifedd, cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion Band 4 a 5, Sefydlu Athrawon, a'r Grant Cynorthwyrwyr Addysgu Lefel Uwch.

gyfuno'r grantiau. Ym mis Ionawr 2016, dywedodd y Pwyllgor blaenorol nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu sicrhau bod amcanion y grantiau gwreiddiol yn cael eu cyflawni.

8. Galwodd rhai rhanddeiliaid am i'r mater hwn fod yn destun ymchwiliad yn ystod ymgyngoriad y cynhaliodd y Pwyllgor yn ystod haf 2016, a oedd yn ceisio barn ar yr hyn ddylai fod yn flaenoriaeth iddo yn ystod y Pumed Cynulliad.

9. Cyfraddau cyrhaeddiad plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yw'r isaf o blith yr holl grwpiau ethnig yng Nghymru. Pan benderfynodd y Pwyllgor gynnal yr ymchwiliad hwn, roedd y data diweddaraf a oedd ar gael (2013-2015) yn dangos bod 15.5% o ddisgyblion Sipsiwn/Roma wedi cyrraedd y trothwy lefel 2 yn gynwysedig (5 TGAU neu ragor ar raddau A*-C, gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg). Mae hyn yn cymharu â 56.0% o'r holl ddisgyblion a 27.8% o'r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim,² sef mesur Llywodraeth Cymru ar gyfer adnabod plant dan anfantais.

10. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ystadegau wedi'u diweddarau ar 31 Ionawr 2017. Roedd y canlyniadau'n fwy calonogol, gyda chyfran y disgyblion Sipsiwn/Roma yn cyrraedd y trothwy lefel 2 yn gynwysedig yn ystod y cyfnod 2014-2016 yn codi i 24.4%. Hefyd, cododd y gyfradd ar gyfer pob disgybl i 59.0%, sy'n golygu y bu gostyngiad yn y bwch cyrhaeddiad rhwng disgyblion Sipsiwn/Roma a'u cyfoedion, o 40.5 pwynt canran i 34.6. Roedd gostyngiad yn y bwch gyda disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, o 12.3 pwynt canran yn 2013-2015 i 7.2 yn 2014-16.³ Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd hwn, ond mae'r bwch rhwng cyrhaeddiad dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr a disgyblion eraill yn parhau i fod yn annerbyniol o fawr.

11. Mae dehongli'r data ar gyrrhaeddiad plant o leiafrifoedd ethnig yn fater mwy cymhleth. Mae'r dysgwyr hyn yn grŵp llai unffurf ac mae'r cyfraddau cyrhaeddiad yn amrywio'n sylweddol ar draws gwahanol grwpiau ethnig. Mae cyfraddau cyrhaeddiad ar gyfer y trothwy lefel 2 yn gynwysedig gan ddisgyblion o ethnigrwydd cymysg Gwyn a Du Caribiaidd (47.4%), Du Caribiaidd (40.0%) a Du Affricanaidd yn arbennig o isel yn 2014-16 o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer pob disgybl (59.0%). Fodd bynnag, mae grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill yn perfformio'n well na'u cyfoedion.

12. Yn aml, mae angen taro cydbwysedd rhwng y manteision a'r hyblygrwydd a geir drwy gyllid cyffredinol heb ei neilltuo ar gyfer llywodraeth leol a'r awydd i sicrhau bod cyllid y bwriedir iddo gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol penodol yn cael ei ddefnyddio i'r dibenion hyn mewn gwirionedd. Roedd y Pwyllgor yn teimlo'i bod yn amserol i graffu ar effaith penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i neilltuo cyllid i gefnogi deilliannau addysgol y grwpiau hyn o ddysgwyr, gan fynd ati'n lle hynny i gyllido'r gweithgareddau hyn o grant mwy a ddefnyddir hefyd at ddibenion eraill.

² Dyma'r gyfradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar gyfer 2014. Defnyddir hyn i wneud cymhariaeth gan fod y data cyrhaeddiad diweddaraf ar gyfer Sipsiwn/Roma wedi'u cyfuno dros y tair blynedd rhwng 2013 a 2015.

³ Yn seiliedig ar gyfraddau prydau ysgol am ddim yn 2014 a 2015 yn y drefn honno.

02. Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r model gorau ar gyfer ariannu gweithgarwch i gefnogi deilliannau addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Dylai edrych eto ar y cwestiwn hwn yn ddiweddarach yn y Pumed Cynulliad ac ystyried a yw cyflwyno'r Grant Gwella Addysg wedi gwella deilliannau'r grwpiau hyn o ddysgwyr. Yn y cyfamser, dylai Llywodraeth Cymru wella ei threfniadau monitro a gwerthuso ar gyfer y Grant Gwella Addysg drwy'r camau gweithredu a nodir yn argymhellion 2 i 7 a mynd i'r afael â'r argymhelliad cyffredinol hwn erbyn diwedd 2020. Tudalen 14

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r trefniadau y mae wedi'u rhoi ar waith i fonitro'r defnydd o'r Grant Gwella Addysg a gwerthuso'i effaith, yn benodol mewn perthynas â deilliannau addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Tudalen 25

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad mwy strategol o ran rhoi cyfarwyddyd ar sut y dylid defnyddio'r Grant Gwella Addysg er budd dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig..... Tudalen 25

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i adolygu effeithiolrwydd y fframwaith perfformiad addysg y mae'n disgwyl i'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol ei ddefnyddio i werthuso deilliannau'r Grant Gwella Addysg. Dylai'r fframwaith gyfeirio'n llwyr mwy penodol at y deilliannau a fwriedir ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr lleiafrifoedd ethnig, fel bod gan bawb sy'n cyfrannu at ddarparu gwasanaethau i'r dysgwyr hyn ddealltwriaeth glir o ddisgwyliadau'r Grant Gwella Addysg..... Tudalen 25

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gynnig mwy o eglurder ynghylch rôl benodol Llywodraeth Cymru, y consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion o ran monitro ac olrhain deilliannau ar gyfer y grwpiau hyn o ddysgwyr. Tudalen 26

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad effaith trylwyr wedi'i ddiweddarau o'r penderfyniad i gyfuno'r grantiau blaenorol yn y Grant Gwella Addysg o 2015-16, gan gyfeirio'n benodol at ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Dylai'r asesiad hwn roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a chyfrifoldebau

statudol Llywodraeth Cymru ynglŷn â hawliau a chydraddoldeb plant. Dylai'r asesiad effaith hefyd ystyried pa mor llwyddiannus y bu camau gweithredu Llywodraeth Cymru i liniaru unrhyw risgiau o effaith negyddol yn sgil y penderfyniad. Tudalen 26

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, gan roi'r diweddaraf ar y sefyllfa ers ei adroddiad thematig diwethaf yn 2011. Dylai adolygiad Estyn ystyried effaith y trefniadau ariannu newydd ers 2015-16 a dylai hefyd ystyried y mater ehangach o ba mor dda y mae 'haen ganol' addysg (y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol) yn monitro ac yn gwerthuso'r deilliannau ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr. Dylai Estyn gynnal yr adolygiad hwn fel rhan o'i gylch gwaith yn 2017-18 neu cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol. Tudalen 26

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol i gael gwell dealltwriaeth o faint o gyllid sy'n cael ei ddarparu i gefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Dylai hefyd ystyried nifer y dysgwyr y mae'r cyllid hwn yn eu cefnogi, yn enwedig yng ngoleuni'r cynnydd yn nifer y plant sy'n ceisio lloches a phlant sy'n ffoaduriaid, a rhoi asesiad i'r Pwyllgor o lefelau cyllido fesul disgybl. Tudalen 34

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol i asesu effaith tueddiadau cyllido tymor hir a'r trefniadau cyllid grant newydd ar feysydd gwasanaeth perthnasol yn yr awdurdod lleol. Tudalen 34

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir cofnodi data mwy dibynadwy a chywir am niferoedd y dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod dyraniadau o'r Grant Gwella Addysg mewn perthynas â'r grwpiau hyn o ddysgwyr yn seiliedig ar y data mwyaf cyfoes a dibynadwy. Tudalen 34

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i wella deilliannau addysgol ymhlith dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gweithio i gau'r bwlch rhyngddynt a'u cyfoedion. Dylai hyn gynnwys ffocws penodol arnynt fel grŵp penodol o ddysgwyr ac ni ddylai ddibynnu'n llwyr ar fentrau mwy cyffredinol i godi cyrhaeddiad pawb. Tudalen 38

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i wella deilliannau addysgol grwpiau penodol o leiafrifoedd ethnig sydd â chyrhaeddiad is na'r cyfartaledd ar gyfer pob disgybl, yn enwedig disgyblion Du neu Ddu Prydeinig, a disgyblion ethnigrwydd cymysg Gwyn a Du Caribiaidd. Dylai hyn gynnwys ffocws penodol arnynt fel grŵp penodol o ddysgwyr ac ni ddylai ddibynnu'n llwyr ar fentrau mwy cyffredinol i godi cyrhaeddiad pawb..... Tudalen 38

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried beth mwy y gellir ei wneud i gefnogi pobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sydd mewn perygl o dangyflawni neu ymddieithrio, i gyfranogi mewn addysg bellach ac addysg uwch. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid datblygu hyn o dan y trefniadau newydd ar gyfer cyllid myfyrwyr yn dilyn Adolygiad Diamond. Tudalen 38

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried adroddiad y bobl ifanc a weithiodd gyda'r prosiect Teithio Ymlaen gan Achub y Plant, Arfer Da mewn Addysg: Prosiect Ymchwil Cymheiriaid (2016) a sut y gall fwrw ymlaen â'u hargymhellion. Dylai Llywodraeth Cymru ledaenu'r adroddiad ar draws y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol a gofyn iddynt ddilyn yr argymhellion cyn belled ag y bo modd. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd ar y cynnydd yn y 12 mis nesaf. Tudalen 39

03. Y model cyllido

Neilltuo neu gyfuno

13. Penderfynodd Llywodraeth Cymru gyfuno 11 o grantiau a oedd wedi'u neilltuo yn un grant, gan ei alw'n 'Grant Addysg Gwella' (GGA), wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2015-16 yn ystod hydref 2014. Ar y pryd, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'r system grantiau symlach newydd yn lleihau costau gweinyddol, ac y dylai arwain at fwy o hyblygrwydd ac yn y pendraw at ddeilliannau gwell i ddysgwyr.

14. Cafodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau blaenorol, Huw Lewis, ei holi gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pedwerydd Cynulliad ynghylch a fyddai uno'r grantiau yn peri risg i unrhyw un o'r amcanion unigol. Dywedodd y Gweinidog ar y pryd y byddai arbedion effeithlonrwydd yn deillio o'r system grantiau symlach newydd ac y byddai Llywodraeth Cymru yn monitro sut y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu hymrwymiaadau.

15. Fodd bynnag, fel y dywedwyd eisoes, dywedodd y Pwyllgor blaenorol ym mis Ionawr 2016: "mae'n amlwg i'r Pwyllgor na all Llywodraeth Cymru sicrhau bod amcanion y grantiau gwreiddiol yn cael eu cyflawni".

16. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch y GGA wedi aros yr un fath gan mwyaf ers i Kirsty Williams ddod yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ym mis Mai 2016. Roedd ei llythyr at y Pwyllgor dyddiedig 11 Tachwedd 2016 yn cyfeirio at yr angen am fwy o hyblygrwydd ariannol a symudiad cyffredinol tuag at fwy o ddad-neilltuo o ran cyllid llywodraeth leol. Dywedodd fod y GGA yn ffordd o helpu i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion ar lefel ranbarthol ar draws Cymru:

"Nod y trefniadau newydd oedd symleiddio systemau, lleihau biwrocratiaeth a chanolbwyntio mwy ar sicrhau deilliannau i ddysgwyr. Roedd yn fwriad hefyd gwario llai o adnoddau ar weinyddu a rheoli'r grantiau, a chanolbwyntio llai ar gofnodi'r mewnbwn a'r allbwn ar lefel genedlaethol."⁴

17. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd y caniateir gwario uchafswm o 1.5% o'r GGA ar gostau gweinyddol yn 2015-16 ac 1% yn 2016-17. Cymharodd hyn â rhai o'r 11 o grantiau blaenorol, a oedd yn rhoi terfyn rhwng 3% a 5% ar wariant gweinyddol. Dywedodd Kirsty Williams fod arbedion gweinyddol y GGA wedi galluogi consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion i wneud iawn am rywffaint o effaith y gostyngiadau cyffredinol mewn cyllid ers 2014-15.

18. Wrth ateb y Pwyllgor, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod sail resymegol y GGA fel a ganlyn:

"Some of the pots of money were relatively small, and if you distribute that on a 22-local authority basis, we're then talking about very, very small pots of money. The previous administration listened to the representations from local government that felt that, in some ways, they were being over-monitored for relatively small pots of money, whereas the vast majority of their education spend was subject only to Estyn and the level 2 plus indicator. So, I can understand the reason for doing it. It's also there to increase flexibility so that

⁴ [Llythyr](#) gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 11 Tachwedd 2016

individual regional consortia and individual local authorities can respond to the needs of their particular populations, which will differ hugely.”⁵

19. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn cefnogi dad-neilltuo yn gryf. Mae felly'n croesawu'r gostyngiad yn nifer y grantiau unigol, penodol, gan nodi bod rhwng 5 a 10% o'u gwerth yn cael ei wario ar gostau adrodd, archwilio a gweinyddu. Fodd bynnag, mae CLILC yn credu nad yw cyfuno nifer o grantiau penodol mewn un grant mawr fel y GGA yn bodloni anghenion awdurdodau lleol. Hoffai CLILC weld Llywodraeth Cymru yn mynd gam ymhellach ac yn trosglwyddo'r GGA i'r Grant Cynnal Refeniw. Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) wrth y Pwyllgor nad yw o reidrwydd yn synhwyrol i glustnodi swm penodol o arian ar gyfer nifer gymharol fach o ddisgyblion.

20. Ar y llaw arall, dywedodd Dr Jonathan Brentnall, academydd sy'n arbenigo ym maes addysg lleiafrifoedd ethnig a disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, fod atal grantiau wedi'u neilltuo yn dod i ben â 50 mlynedd o gyllid pwrpasol gan lywodraeth i gefnogi disgyblion o leiafrifoedd ethnig, a 40 mlynedd o gyllid pwrpasol ar gyfer addysg Teithwyr. Roedd yn dadlau bod hyn yn dadflaenoriaethu cymorth i'r grwpiau hyn o ddysgwyr.

21. Mae Dr Brentnall yn galw am rannu cyllid yn dri llinyn clir ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, y rheini sy'n dysgu Saesneg neu Gymraeg fel iaith ychwanegol, a phlant o leiafrifoedd ethnig eraill fel ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Mae hefyd yn credu y dylid troi'n ôl at rywfaint o neilltuo:

“Whatever grant stream is used and whether funding is administered centrally or devolved to schools, it must have some form of ring-fencing and close accountability otherwise there is no guarantee that it will be spent specifically on meeting the needs, and raising the attainment of [these groups of learners].”⁶

22. Dywedodd Trudy Aspinwall o'r prosiect Teithio Ymlaen gan Achub y Plant, sy'n gweithio gyda phobl ifanc o gefndiroedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr, wrth y Pwyllgor:

“It really feels like it's a really bad time to take away a focus and a priority from gypsy and traveller education services. (...)”

We're very concerned that those services won't be given the priority that they were before, that they will be against a background of cuts, that they will not be prioritised and they will not be safeguarded.”⁷

23. Fodd bynnag, ychwanegodd Ms Aspinwall na ellid gwybod a yw cyfuno'r grantiau i'r GGA wedi cael effaith negyddol oherwydd nad yw'r trefniadau newydd yn cael eu monitro'n briodol. Roedd diffyg monitro yn thema gyson yn y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad.

24. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion ysgrifenedig i alwad y Pwyllgor am dystiolaeth yn mynegi pryder ynghylch cyfuno'r grantiau. Roedd rhanddeiliaid yn gyffredinol yn pryderu y byddai hyn yn arwain at ostyngiad yn y cyllid ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig neu sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

25. Roedd dystiolaeth gan staff sy'n gweithio ym meysydd gwasanaeth yr awdurdodau lleol perthnasol yn galw'n gyffredinol am ddychwelyd i'r grantiau wedi'u neilltuo. Dywedodd Martin Dacey,

⁵ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, [Tystiolaeth Lafar](#), 12 Ionawr 2017

⁶ Jonathan Brentall, Ymgynghorydd Addysg, [Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol](#)

⁷ Trudy Aspinwall, Prosiect Teithio Ymlaen Achub y Plant, [Tystiolaeth Lafar](#), 8 Rhagfyr 2016

Pennaeth Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Gwent, sy'n darparu gwasanaethau i'r pum awdurdod lleol yn y de-ddwyrain, gan ddefnyddio'r gyllideb y maent yn ei rhannu o ddyraniad GGA cyffredinol y consortia:

“I think it says a lot about the priority and the status of this funding... under the EIG, I do. I think the funding should be ring-fenced. I think it says a lot about the priority and the status of this funding.”⁸

26. Dywedodd Mr Dacey ei fod yn cytuno â holl dystiolaeth a dadansoddiad Dr Brentnall fod Llywodraeth Cymru wedi dad-flaenoriaethu'r maes hwn. Fodd bynnag, nid yw'n gallu rhoi barn gyffredinol ei awdurdod lleol (Casnewydd) na'r consortiwm ynghylch a ddylid neilltuo'r cyllid ai peidio. Ni chafodd y Pwyllgor farn glir ynghylch y cwestiwn hwn gan arweinwyr awdurdodau lleol unigol na'r consortia, heblaw am CLILC sy'n croesawu dad-neilltuo grantiau unigol ac yn dymuno gweld GGA yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw. Heblaw am ERW (de-orllewin a chanolbarth Cymru), prin iawn y cynigiodd y consortia eu safbwyntiau eu hunain. Mae hyn yn ffactor allweddol o ran argymhellion y Pwyllgor ynghylch monitro.

27. Mae'r dystiolaeth gan feysydd gwasanaeth yr awdurdodau lleol, a basiwyd ymlaen gan y consortia, yn awgrymu na fu unrhyw newid sylweddol yn y ddarpariaeth o ganlyniad i gyflwyno'r GGA. Er enghraifft, mae Consortiwm Canolbarth y De i bob pwrpas wedi parhau i gynnig grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig i bob awdurdod lleol o ddyraniad GGA y consortiwm gan Lywodraeth Cymru.

28. Dywedodd Estyn nad yw wedi gweld unrhyw ddirywiad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig ers cyflwyno'r GGA, ond cydnabu nad yw wedi ymchwilio i hyn yn fanwl. Dywedodd Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant, wrth y Pwyllgor:

“Dyna'r peth mwyaf pwysig; nid cymaint beth yw ffynhonnell yr arian, ond bod yna—pa arian bynnag sy'n cael ei wario—werthuso trwyadl yn cael ei wneud i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei wario yn y ffordd fwyaf cost-ffeithiol. A'r diffyg strwythurol yw nad oes digon o hynny yn digwydd.”⁹

Y cyd-destun ehangach o ran gwella ysgolion

29. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi gosod y mentrau i wella deilliannau addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig yng nghyd-destun gwella ysgolion yn fwy cyffredinol. Tynnodd sylw at ddatganiad polisi Llywodraeth Cymru o 2014, sef **Cyflawniad lleiafrifoedd ethnig mewn addysg yng Nghymru**, a oedd yn ceisio gosod cyflawniad lleiafrifoedd ethnig yn y fframwaith strategol ehangach sy'n llywodraethu addysg yng Nghymru. Dywedodd yr Ysgrifennodd Cabinet wrth y Pwyllgor:

“Placing the drivers for improvement for these groups of learners within the context of the wider school improvement services is an important factor in mainstreaming the needs of these learners and enabling them to better access support.”¹⁰

30. Cefnogwyd hyn gan Nick Batchelar o ADEW, a ddywedodd wrth y Pwyllgor:

⁸ Martin Dacey, Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru, **Tystiolaeth Lafar**, 8 Rhagfyr 2016

⁹ Meilyr Rowlands, Estyn, **Tystiolaeth Lafar**, 30 Tachwedd 2016

¹⁰ **Llythyr** gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 11 Tachwedd

“There is a danger in looking at the notion that we deal with the issues about promoting the achievement of one subset of pupils separate from looking at how we build a strong education system more broadly.”¹¹

31. Fodd bynnag, mae Dr Brentnall yn credu bod hyn yn camddeall y cysyniad o gynhwysiant. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

“The Welsh Government has moved to a way of talking about everything for all learners, which I believe is this misinformed idea of inclusion. My understanding of inclusion is that you recognise that people are different from one another and that pupils have different needs. You have to identify what those issues and those needs are, and then you target them. By simply saying, ‘We’re doing everything for all learners’, I think you lose the detail.”¹²

32. Yn yr un modd, dywedodd Achub y Plant fod dulliau cynhwysiant Llywodraeth Cymru bellach yn golygu trin pawb 'yr un fath'. Ym marn Achub y Plant, mae hyn yn anwybyddu'r dystiolaeth bod dulliau hyblyg a phwrpasol yn gweithio, a'u bod hefyd yn rhan annatod o oresgyn rhwystrau er mwyn i bobl allu cael mynediad cyfartal i wasanaethau. Mae'n pryderu y gall y pwyslais newydd ar 'bob dysgwr' wrth wella ysgolion olygu bod anghenion plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu hanwybyddu:

“Without dedicated funding some local authorities may not prioritise or protect [Traveller Education] services because they are not seen to directly link to the school improvement agenda [or statutory responsibilities].”¹³

Safbwynt y Pwyllgor

Clywodd y Pwyllgor negeseuon cymysg gan randdeiliaid am y model ar gyfer dosbarthu cyllid y mae Llywodraeth Cymru bellach yn ei ddefnyddio ar ffurf y Grant Gwella Addysg (GGA). Nid oes consensws clir ynghylch a ddylid dychwelyd i roi cyllid ar ffurf grantiau wedi'u neilltuo neu a ddylai barhau'n rhan o'r GGA cyfun.

Nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth glir y bu effaith niweidiol, y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol i gyfuno'r grantiau, ar y ddarpariaeth ar gyfer cefnogi deilliannau addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw hyn yn hysbys y naill ffordd neu'r llall, ac ni all Llywodraeth Cymru fod yn fodlon na fu unrhyw effaith negyddol. Mae argymhellion y Pwyllgor felly'n ymwneud yn bennaf â faint o waith monitro a gwerthuso a wneir ar hyn o bryd (gweler adran 4 ynghylch monitro).

Mae gan y Pwyllgor amheuon ynghylch pwyslais Llywodraeth Cymru ar ddiwallu anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr drwy ganolbwyntio ar bob disgybl er mwyn gwella ysgolion. Mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn rhy uchelgeisiol ac afrealistig i ddisgwyl y bydd canolbwyntio ar bob disgybl (hyd yn oed yn gyffredinol ar y rheini o gefndiroedd difreintiedig fel y'u mesurir yn ôl pwy sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim), yn rhoadru yn ddigon pell i lawr i grwpiau penodol o ddysgwyr fel plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phob un o'r gwahanol grwpiau ethnig yng Nghymru.

¹¹ Nick Batchelar, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, *Tystiolaeth Lafar*, 8 Rhagfyr 2016

¹² Jonathan Brentnall, Ymgynghorydd Addysg, *Tystiolaeth Lafar*, 30 Tachwedd 2016

¹³ Prosiect Teithio Ymlaen Achub y Plant, Tystiolaeth Ysgrifenedig, **EIG 20**

Felly, cred y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru gryfhau ei ffocws a thargeddu cyllid yn fwy penodol ar ddeilliannau addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a grwpiau lleiafrifoedd ethnig sydd â chyrhaeddiad is na'r cyfartaledd. Mae'r Pwyllgor yn credu y gellid gwneud hyn o hyd drwy un Grant Gwella Addysg, ond gyda mwy o gyfarwyddyd ynghylch sut y dylid ei ddefnyddio er budd grwpiau penodol o ddysgwyr, y tu hwnt i amcanion cyffredinol, lefel uchel. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro deilliannau'r GGA yn agosach a dwyn awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gyfrif ar sut y mae'r arian hwn o fudd i Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a grwpiau lleiafrifoedd ethnig sydd â chyrhaeddiad is na'r cyfartaledd. Rydym wedi gwneud argymhellion ynglŷn â hyn yn adran 4, sef Monitro a gwerthuso.

Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r model gorau ar gyfer ariannu gweithgarwch i gefnogi deilliannau addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Dylai edrych eto ar y cwestiwn hwn yn ddiweddarach yn y Pumed Cynulliad ac ystyried a yw cyflwyno'r Grant Gwella Addysg wedi gwella deilliannau'r grwpiau hyn o ddysgwyr. Yn y cyfamser, dylai Llywodraeth Cymru wella ei threfniadau monitro a gwerthuso ar gyfer y Grant Gwella Addysg drwy'r camau gweithredu a nodir yn argymhellion 2 i 7 a mynd i'r afael â'r argymhelliad cyffredinol hwn erbyn diwedd 2020.

04. Monitro a gwerthuso

33. Y prif fater a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad oedd y diffyg monitro a gwerthuso sy'n digwydd; o ran sut y mae'r Grant Gwella Addysg (GGA) yn cael ei ddefnyddio ac o ran ei effaith.

34. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo consortia rhanbarthol ynghylch sut y dylid rhannu eu dyraniadau GGA rhwng y gwahanol ddibenion, nac yn monitro faint sy'n cael ei wario ar bob un ohonynt. Er enghraifft, ni allai'r Ysgrifennydd Cabinet ateb cwestiwn y Pwyllgor yn ysgrifenedig ynghylch faint o'r GGA a ddefnyddir i gefnogi deilliannau addysgol Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a lleiafrifoedd ethnig. Mae hwn yn amlwg yn wahanol i'r trefniadau blaenorol lle'r oedd y cyllid yn cael ei neilltuo i grantiau penodol.

Rôl Llywodraeth Cymru

35. Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu'r GGA i'r pedwar consortiwm rhanbarthol, sydd wedyn yn gweinyddu'r grant.¹⁴ Nid yw Llywodraeth Cymru yn monitro nac yn olrhain sut y mae'r arian yn cael ei wario neu ei ddyrannu islaw'r lefel hon.

36. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor:

“In conjunction with local government, the Welsh Government took the decision to remove the requirement to track grant expenditure by the themes of the 11 legacy grants. This was seen as a significant opportunity to reduce system costs at school, local authority and consortia level, and reflects the emphasis on outcomes not on tracking activity at a national level.

Therefore at a national level the Welsh Government does not collect data which identify how much of the EIG is spent on specific areas or themes within the overall grant, including on specific programmes and interventions. (...)

The Welsh Government does not monitor the financial input through the EIG into the services which support groups of learners at risk of underachieving. The flexibility within the EIG arrangements better enable local authorities, consortia and schools to prioritise their funding to areas of greatest need. At school level we estimate there would be a significant system cost in tracking expenditure which supports the educational achievement of individual groups of learners, in particular when we consider these groups of learners may benefit from support from other funding streams including the Pupil Deprivation Grant. As a principle we have sought to reduce the administrative costs of the grant and increase the focus on delivery and outcomes.”¹⁵

37. Hefyd, esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor, wrth wneud y penderfyniad yn hydref 2014 i gyfuno grantiau a oedd wedi'u neilltuo, fod Llywodraeth Cymru wedi gwrandao ar awdurdodau lleol a oedd yn teimlo eu bod yn cael eu gor-fonitro ar gyfer symiau cymharol fach o arian.

¹⁴ Eglurodd y Llywodraeth Cymru fod y GGA yn dechnegol yn cael ei ddsbarthu i'r awdurdodau lleol, sy'n trosglwyddo'r arian hwn i'r consortia drwy eu perthynas gomisiynu ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion, a bod y consortia wedyn yn dyrannu'r arian.

¹⁵ **Llythyr** gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 11 Tachwedd 2016

Amcanion lefel uchel y GGA

38. Mae'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn awgrymu nad yw awdurdodau lleol yn cael llawer o gyfarwyddyd ynghylch sut i ddefnyddio'r GGA i gefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, na pha ddeilliannau a ddisgwylir y tu hwnt i amcanion lefel uchel a gofynion bras.

39. Mae'r consortia rhanbarthol yn rhoi nodiadau cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ac ysgolion sy'n cynnwys telerau ac amodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y GGA. Mae'r rhain yn gyffredinol eu natur ac yn nodi mai amcanion y GGA yw gwella deilliannau addysgol i bob dysgwr a lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau dysgwyr drwy:

- wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu;
- mynd i'r afael â rhwystrau dysgwyr at ddysgu a gwella cynhwysiant;
- gwella arweinyddiaeth mewn lleoliadau addysgol; a
- gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ac ymgysylltiad dysgwyr.

40. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod yn rhaid defnyddio'r cyllid i gyfrannu at gyflawni'r gofynion bras canlynol:

- gwella addysgu a dysgu;
- gwella deilliannau addysgol, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, yn y cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol 2, cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 ar gyfer pob dysgwr ym mhob lleoliad. Mae hyn yn cynnwys y grwpiau o ddysgwyr hynny y mae'n hysbys bod risg iddynt dangyflawni, er enghraifft, ond heb ei gyfyngu i, faterion sy'n ymwneud â rhyw, neu'r rheini sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig, Saesneg a/neu Gymraeg fel iaith ychwanegol, neu o grwpiau lleiafrifol ethnig penodol fel dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr; a
- gwella'r deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a chau'r bwlch rhwng disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

41. Disgwylir i ysgolion roi dadansoddiad o gyfanswm eu dyraniad GGA yn eu Cynlluniau Datblygu Ysgol a manylion ynghylch sut y byddant yn defnyddio'r cyllid. Mae ymgynghorwyr y consortia yn cefnogi ac yn herio ysgolion i sicrhau bod eu cynlluniau gwella ysgol yn adlewyrchu'n briodol eu taith tuag at welliant a'r deilliannau disgwylidig.

42. Nid oedd llawer o fanylder yn y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y consortia rhanbarthol a'r Ysgrifennydd Cabinet ynghylch unrhyw ddeilliannau penodol neu fesurau deilliant a ddisgwylir o'r GGA, y tu hwnt i'r amcanion cymharol lefel uchel a restrir uchod ac sydd yng nghynllun gwella addysg Llywodraeth Cymru, [Cymwys am Oes](#).

43. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Cabinet am fanylion y deilliannau a'r mesurau deilliant ar gyfer 2015-16 a 2016-17 i ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Yn ei ymateb, dywedodd Kirsty Williams mai diben y GGA yw cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol a dywedodd fod Fframwaith Perfformiad Addysg yn cael ei dreialu yn 2016-17. Fodd bynnag, prin yr oedd yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yn ymwybodol bod fframwaith o'r fath ar waith.

44. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod galwadau am werthusiad ffurfiol o effaith cyfuno'r grantiau yn y GGA, o ran effaith andwyol ar unrhyw un o ddibenion y grantiau blaenorol. Mae hefyd yn

poeni am ddychwelyd i sefyllfa lle mae'r amser a'r arian a roddir i waith monitro yn tynnu oddi wrth ddefnydd adeiladol o'r cyllid. Dywedodd Steve Davies, Cyfarwyddwr Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru, wrth y Pwyllgor:

“What we need to be careful of is that we don't go back to a historical model where we spend a lot of time and money measuring things that are minute in detail and that distract from the actual improvement activity.”¹⁶

45. Fodd bynnag, cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn bryd adolygu a yw'r trefniadau monitro a'r defnydd ohonynt yn addas at y diben:

“It's clear that we need to look again that we can align performance management for consortia and local authority spend against national priorities.”¹⁷

Rôl y consortia rhanbarthol

46. Mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio mai rôl y consortia rhanbarthol yw monitro'r GGA a gwerthuso ei effaith. Roedd llythyr yr Ysgrifennydd Cabinet yn nodi:

“The activities and interventions funded by the grant and its outcome measures are monitored regularly by consortia challenge advisers and subject to termly review and challenge meetings, which are also used for monitoring performance and achievement of outcomes.

Bydd y consortia yn cyhoeddi adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn sy'n cynnwys manylion am y cynnydd a wnaed yn ystod cyfnod y grant, ynghyd â gwerthusiad cyffredinol o'r rhaglen ac astudiaethau achos lle mae hynny'n briodol. (...)

O dan delerau'r grantiau blaenorol, cyflwynodd Gwasanaethau Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig ac Addysg i Deithwyr [yr awdurdodau lleol] adroddiadau i Lywodraeth Cymru am y cymorth a oedd yn cael ei roi drwy'r grantiau. Under the structures in place for school improvement through the National Model for Regional Working and the EIG, the lines of accountability and reporting go via Local Authorities and consortia.”¹⁸

47. Mae hyn yn golygu mai Llywodraeth Cymru a oedd yn arfer monitro gweithgarwch a ariannwyd gan grantiau wedi'u neilltuo, ond mai'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol eu hunain a fydd yn gwneud hyn o dan y GGA. Mae'r Pwyllgor yn credu bod hyn yn gwanhau goruchwyliaeth ac atebolrwydd mewn perthynas â chyllid y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio i gefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig.

48. Roedd tystiolaeth y consortia, mewn cyflwyniadau ysgrifenedig ac ar lafar gan dystion, yn rhoi fawr o arwydd eu bod yn gwneud llawer o waith monitro ar y defnydd o gyllid nac yn olrhain deilliannau. Cyflwynodd pob un o'r pedwar consortiwm bapurau i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cynnwys unrhyw wybodaeth am sut y maent yn monitro deilliannau ac yn gwerthuso effaith y

¹⁶ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, **Tystiolaeth Lafar**, 12 Ionawr 2017

¹⁷ Ibid

¹⁸ **Llythyr** gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 11 Tachwedd 2016

GGA. Y papur gan ERW (y de-orllewin a'r canolbarth) oedd yr unig un a ysgrifennwyd o safbwynt y consortiwm ei hun yn hytrach na bod yn gasgliadau o wybodaeth gan feysydd gwasanaeth yr awdurdodau lleol perthnasol.

49. Pan y'u gwahoddwyd i ddod i'r Pwyllgor i egluro eu rôl o ran dyrannu a goruchwyllo'r GGA:

- Dim ond ERW (y de-orllewin a'r canolbarth) a gynrychiolwyd gan rywun a oedd yn gallu siarad ar ran y consortiwm;
- Ni ddaeth GwE (y gogledd); ac
- Anfonodd EAS (y de-ddwyrain) a Chonsortiwm Canolbarth y De staff gweithredol o awdurdodau lleol¹⁹ a oedd yn gallu sôn am y gwaith y maent yn cymryd rhan ynddo, ond yn methu siarad ar ran y consortia ynghylch y mater ehangach o fonitro.

50. Cadarnhaodd ERW wrth y Pwyllgor nad yw'r consortiwm yn rhoi unrhyw gyfarwyddyd y tu hwnt i'r amcanion cyffredinol yn nogfen Cymwys am Oes Llywodraeth Cymru, sy'n sail i'r rhai a restrir uchod, gan ddweud ei fod yn rhoi cyfarwyddyd bras iawn. Dywedodd ERW hefyd ei fod yn cymryd bod pob awdurdod lleol wedi cynnal eu trefniadau monitro a gwerthuso eu hunain ond nad yw'r consortia yn monitro hynny.

51. Holodd y Pwyllgor CLILC ac ADEW ynghylch faint o waith monitro y mae'r consortia yn ei wneud. Dywedodd Nick Batchelar, Cyfarwyddwr Addysg Caerdydd, a oedd yn cynrychioli ADEW:

“I think it would be fair to say that the consortium in this area, at the moment, doesn't have a particularly strong role in relation to the scrutiny of the two groups of pupils—well, there are many groups, but the two main groups are minority ethnic pupils generally and Gypsy/Roma/Travellers. Obviously, the bulk of the minority ethnic achievement grant that comes to the central south consortium ends up in Cardiff. So, the role of the consortium is largely about passporting money on to the local authorities.”²⁰

52. Cadarnhaodd Mr Batchelar nad yw Consortiwm Canolbarth y De yn rhoi unrhyw gyfarwyddyd ar sut y caiff y GGA ei ddefnyddio nac yn monitro'i effaith:

“I don't think they're well placed to do it. I think local authorities are better placed to do that. And, certainly, the consortia, through the channels and networks, can be a vehicle for brokering the dissemination of that understanding of what good practice looks like. But, behind the conversation, I think there are some issues around who the appropriate accountable body is. Local authorities are the accountable body for the progress young people make or don't make. We will end up with some confusions if the consortia are in a position where they're acting as the accountable authority for the progress of young people in the authority; actually, the authorities are the accountable body.”²¹

¹⁹ Dylid nodi y rhoddodd y tystion dystiolaeth ddefnyddiol ynghylch sut y mae'r dyraniadau y mae gwasanaethau Teithwyr a Lleiafrifoedd Ethnig yn eu cael gan y GGA yn cael eu defnyddio. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am hyn, ac nid yw'n feirniadaeth ohonynt nad oeddent mewn sefyllfa i ateb cwestiynau ar ran y consortiwm.

²⁰ Nick Batchelar, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Tystiolaeth Lafar, 8 Rhagfyr 2016

²¹ Ibid

53. Yn ei thystiolaeth lafar, pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

“...consortia are accountable regionally, and locally for the local authorities that make up the consortia, for the governance arrangements as to how they spend their resources and the effectiveness of the spend of those resources..”²²

54. Fodd bynnag, dywedodd Kirsty Williams hefyd:

“If I’m being blunt, and I hope I can be, it is disappointing to have read some of the evidence that you’ve received from consortia and from directors of education about their lack of knowledge and understanding (...)

To have evidence that says we simply passport it on is an abdication of responsibility, which I do not find acceptable. That means we need to go back and look again at the framework, because that’s not good enough. There is significant resource going into EIG and people need to be held accountable for the proper use and expenditure and the results that we get from that money.”²³

Fframwaith deilliannau/perfformiad

55. Clywodd y Pwyllgor am 'fframwaith deilliannau', y dywedodd Llywodraeth Cymru cyn hynny y byddai'n ei lunio er mwyn gwerthuso gwariant y GGA. Dywedodd rhanddeiliaid nad oeddent wedi clywed rhagor am hyn a dywedodd CLILC nad oedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud.

56. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod 'fframwaith perfformiad addysg' yn cael ei dreialu yn 2016-17. Fodd bynnag, nid oedd y dystiolaeth gan y consortia ac awdurdodau lleol yn dangos fawr o ymwybyddiaeth na defnydd o hyn gan awdurdodau lleol a'r consortia.

57. Dywedodd Dr Brentnall wrth y Pwyllgor:

“Under the new arrangements, under the education improvement grant, I know of nothing that’s been done, actually. I have asked about what was supposed to be the outcomes framework, but I had no reply from my colleagues in the Welsh Government who I contacted as to what’s replaced the outcomes framework that didn’t materialise. So, I don’t know how it’s being monitored now.”²⁴

58. Dywedodd Ms Aspinwall o'r prosiect Teithio Ymlaen gan Achub y Plant:

“My understanding now is that with the loss of the grant, the EIG has no set of outcomes framework associated with it. We raised concerns with the Minister and with Welsh Government at the time around the loss of the ring-fencing and the worries over the loss of focus. We were told specifically that an outcomes framework would be developed in time for the EIG, and then would be developed for year 2. (...)

²² Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, **Tystiolaeth Lafar**, 12 Ionawr 2017

²³ Ibid

²⁴ Jonathan Brentnall, Ymgynghorydd Addysg, **Tystiolaeth Lafar**, 30 Tachwedd 2016

After some months of us raising issues, [the Welsh Government] then redirected us to regional consortia business plans for detail as to how the EIG was being spent to benefit Gypsy and Traveller pupils. I really struggled to find any information. The business plans seem very top level and there's no mention, really, of any specific groups, and certainly no mention of Gypsy, Roma and Traveller children and young people in any of those business plans. (...)

All I can say is that, as far as I'm aware, there is no set of outcomes framework that has been developed.”²⁵

59. Gwrthgyferbynnodd Dr Brentnall hyn â'r trefniadau ar gyfer y grantiau blaenorol:

“The minority ethnic achievement grant, as I think I explained in my notes, has been in various forms since 1966. It's been in place to address the very precise and specific needs of these groups of learners, and it's become one of the most tightly audited and tracked and monitored grants that there has been, because, every year, the local authority services had to submit for those funds. They had to bid to the Welsh Government for funding, and they had to do so by accounting for every single pupil, by assessing all of those pupils according to their stage of language acquisition, identifying asylum seekers, identifying their ethnic backgrounds, and then monitoring them and setting targets to try to raise their attainment, which, actually, over the period of the last 15, 20 years has been very successful.”²⁶

60. Gofynnodd y Pwyllgor i CLILC ac ADEW am eu safbwyntiau ynghylch yr hyn a oedd wedi digwydd o ran datblygu fframwaith deilliannau ar gyfer y GGA. Dywedodd CLILC

“When the EIG was set up, it was on the understanding that there would be an outcomes framework, but the truth is—although, in terms of our discussions with Welsh Government, they have been very positive, and I think that the DfES, the department dealing with it, has been very receptive—it has proved to be a difficult discussion, and over the two years, I think the truth is that we haven't made significant progress.”²⁷

61. Pan holwyd CLILC am y rhesymau dros y diffyg cynnydd, dywedodd:

“Simply the election, the change of Government, and the fact that we've got a new Cabinet Secretary—I think those are part of the reasons as well, because the policy direction is changing and is being developed. I think that that's been the biggest reason for the delay.”²⁸

62. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r consortia ddarparu fframwaith perfformiad addysg ar gyfer 2016-17. Cadarnhaodd ei swyddog fod hyn yr un peth â'r fframwaith deilliannau yr oedd pawb yn ei ddisgwyl. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth

²⁵ Trudy Aspinwall, Prosiect Teithio Ymlaen Achub y Plant, *Tystiolaeth Lafar*, 8 Rhagfyr 2016

²⁶ Jonathan Brentnall, Ymgynghorydd Addysg, *Tystiolaeth Lafar*, 30 Tachwedd 2016

²⁷ Dr Chris Llewelyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, *Tystiolaeth Lafar*, 8 Rhagfyr 2016

²⁸ Ibid

bellach a gyflwynwyd mewn gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet ers hynny yn dangos bod y fframwaith hwn yn cynnwys dim mwy na'r tri nod cyffredinol lefel uchel a drafodir ym mharagraff 40 uchod.

63. Mae llythyr Kirsty Williams dyddiedig 6 Chwefror 2017 yn nodi ei bod yn ofynnol i'r consortia a'r awdurdodau lleol nodi dangosyddion perfformiad allweddol a deilliannau mesuradwy fel rhan o'u proses cynllunio busnes i gefnogi'r tri nod lefel uchel. Ni chafodd y Pwyllgor unrhyw wybodaeth am hyn gan yr awdurdodau lleol na'r consortia.

64. Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn derbyn fel a ganlyn:

“It is clear that we need to look again at how we align our performance management for consortia and local authority spend against our national priorities. Whilst this applies specifically to the EIG I believe that there may be opportunities when we launch our refreshed Qualified for Life to look at the challenges of achieving a genuine outcomes focussed framework more widely in education.”²⁹

Rôl Estyn

65. Disgrifiodd Estyn i ba raddau y mae'n edrych ar y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig yn benodol, fel rhan o'u harolygiadau safonol ar gyfer ysgolion ledled Cymru. Dywed y dystiolaeth ysgrifenedig:

“As part of Estyn’s inspection of individual providers and local authorities, inspectors consider the performance of different groups of learners including minority ethnic groups, and gypsies and travellers. Inspectors judge how well a provider establishes an ethos that is inclusive as well as other equality and diversity issues. Inspectors also judge how well the provider promotes the prevention and elimination of oppressive behaviour including racism. (...)

Inspectors report on how well an individual provider has supported Gypsy, Roma and Traveller and Minority Ethnic children in improving educational outcomes using different funding streams including the Education Improvement Grant and the Pupil Deprivation Grant. Estyn has not evaluated how local authorities use the Education Improvement Grant specifically and without detailed work it is difficult to differentiate between the different funding streams.”³⁰

66. Clywodd y Pwyllgor fod pob un o arolygiadau Estyn o'r pedwar consortiwm rhanbarthol yn feirniadol o allu'r consortiwm i ddefnyddio data ar lefel disgyblion i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella, yn enwedig ar gyfer grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed. Ymhelaethodd Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ar y dystiolaeth lafar hon:

“Un beirmiadaeth rŷm ni wedi ei wneud yn rheolaidd ydy'r diffyg arfarnu sydd wedi bod ar effeithlonrwydd gwariant yn y maes yma. Er enghraifft, yn y

²⁹ Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 6 Chwefror

³⁰ Estyn, Tystiolaeth Ysgrifenedig, [EIG 12](#)

pedwar adroddiad y gwnaethom ni ar y consortia, roedd yn feirniadaeth am bob un o rheini nad oedd digon o sylw yn cael ei roi i ddadansoddi pa mor effeithiol oedd y gwahanol waith roeddynt yn ei wneud o ran y allbwn, yn enwedig gyda plant dan anfantais, gan gynnwys, wrth gwrs, [dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig].”³¹

67. Dywedodd Estyn wrth y Pwyllgor nad yw wedi gweld unrhyw newid amlwg yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr Sipsiwn-Teithwyr a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig ers cyfuno'r grantiau yn y GGA. Fodd bynnag, dywedodd nad yw wedi edrych ar y mater hwn yn fanwl iawn ac nad yw wedi'i adolygu'n benodol ers 2011. Hefyd, nid oedd Estyn yn gallu rhoi diweddariad ynghylch a yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ar yr argymhellion a wnaed yn ei adroddiadau thematig yn 2006 a 2011. Canfu adroddiad 2011, er gwaethaf ymdrechion gorau rhai awdurdodau lleol ac ysgolion uwchradd, fod llawer i'w wneud er mwyn gwella deilliannau disgyblion Sipsiwn-Teithwyr. Cydnabu'r Prif Arolygydd nad yw Estyn wedi gwneud unrhyw waith dilynol ffurfiol ar adroddiad 2011 a'r argymhellion, ond nad oes ganddo'r adnoddau i wneud hynny heb fod Llywodraeth Cymru yn gofyn iddo wneud hynny'n benodol.

“The vast bulk of our work is statutory inspections, and nearly all the other work is taken up by the remit letter. We have virtually no money left over to do additional work. But we do have intelligence. What I’m saying is that I haven’t got a detailed, thematic report to tell you to what extent these things have been addressed in detail, but I can give you our general information.”³²

68. Dywedodd y Prif Arolygydd hefyd:

“Oherwydd y feirniadaeth rŷm ni wedi'i gwneud o awdurdodau a chonsortia ynglŷn â pheidio edrych ar werthuso'r gwaith sy'n benodol i grwpiau o blant, mae hynny'n rhywbeth, rwy'n credu, y dylem ni fod yn edrych arno yn y dyfodol. (...)

Rŷm ni mewn trafodaethau ar hyn o bryd gyda'r Llywodraeth, ac mae hynny'n un posibilrwydd am lythyron remit y dyfodol.”³³

69. Cytunodd Trudy Aspinwall o Achub y Plant y dylai Estyn adolygu sefyllfa'r grwpiau hyn o ddysgwyr.

“I did have a sense that they don't have an overall picture and haven't actually looked closely at an updated view on what is happening for Gypsy and Traveller pupils (...)

So, I think that two years into the EIG is quite timely to be looking at asking Estyn to undertake that kind of review, yes. “³⁴

70. Mewn tystiolaeth lafar, ailadroddodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn meddwl ei bod yn rhy gynnar i wneud gwerthusiad llawn o effaith cyfuno'r grant, ond y byddai'n ddigon parod i glywed gan Estyn os yw'n credu bod angen edrych eto ar y maes hwn.

³¹ Meilyr Rowlands, Estyn, *Tystiolaeth Lafar*, 30 Tachwedd 2016

³² Meilyr Rowlands, Estyn, *Tystiolaeth Lafar*, 30 Tachwedd 2016

³³ Ibid

³⁴ Trudy Aspinwall, Prosiect Teithio Ymlaen Achub y Plant, *Tystiolaeth Lafar*, 8 Rhagfyr 2016

71. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r **llythyr cylch gwaith** yr anfonodd at Estyn ar gyfer 2017-18. Nid yw'n cynnwys adolygiad thematig o'r GGA na'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, mae'n cynnwys y Grant Gwella Addysg ar gyfer ysgolion ymysg y meysydd y gall Llywodraeth Cymru ofyn am gyngor a chymorth yn eu cylch yn 2017-18.

Asesiad effaith

72. Roedd Dr Jonathan Brentnall ac Achub y Plant yn feirniadol iawn o'r ffordd y gwnaed y penderfyniad i gyfuno'r grantiau yn ystod cylch cyllideb 2015-16, yn enwedig lefel yr asesiad effaith a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru.

73. Roedd Dr Brentnall yn dadlau na chynhaliodd Llywodraeth Cymru asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y penderfyniad i leihau'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn ystod y flwyddyn 2014-15 nac ymgorffori'r grantiau yn y GGA yn 2015-16 nes bod misoedd wedi mynd heibio ers y penderfyniadau. Mae'n galw am gomisiynu adolygiad annibynnol i ystyried i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi cydymffurfio â'i dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac wedi dilyn ei phrotocolau ei hun wrth wneud y penderfyniad hwn.

74. Mae'r Asesiad Effaith Strategol y cynhaliodd Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllideb 2015-16 yn cydnabod:

“Bydd gostyngiad yn y pecyn cyffredinol o gyllid yn y maes hwn, a allai leihau'r effaith gadarnhaol ar nodwedd warchoddedig hil a'r rhai o dan 16 oed, ond nid oes disgwyl y bydd unrhyw effaith ar unrhyw nodwedd warchoddedig arall.”³⁵

75. Dywedodd Dr Brentnall fod yr anallu i ragweld y byddai gwneud y newidiadau hyn yn arwain at ostyngiad sylweddol mewn staff (mae'n nodi hyn fel 18%) ym maes darpariaeth addysg arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion sylweddol yn eithaf syfrdanol. Tynnodd sylw hefyd at effaith anghymesur ar weithwyr duon a gweithwyr o leiafrifoedd ethnig sy'n gweithio i wasanaethau addysg lleiafrifoedd ethnig ac addysg Teithwyr awdurdodau lleol.

76. Roedd yr Asesiad Effaith Strategol ar gyfer cyllideb 2016-17 yn nodi y byddai'r effaith ar blant Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei lliniaru gan y ffaith eu bod yn fwy tebygol o fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac felly'n gymwys ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD). Fodd bynnag, roedd Dr Brentnall yn feirniadol o'r honiad hwn, gan ysgrifennu:

“The PDG is not intended for targeting the needs of [English as an Additional Language] (EAL) learners (as the MEAG was), certainly not if they are [not eligible for free school meals], and it has no ring-fencing for minority ethnic or Gypsy, Roma and Traveller learners who are eFSM. Without a strict accountability framework for how these pupils are actually benefiting ‘proportionately’ or ‘disproportionately’ from the PDG in schools, it is difficult to ... evaluate the extent that the transition to the new arrangements is directly benefiting minority ethnic learners in the way that the Minority Ethnic Achievement Grant and Gypsy Traveller Grant did.”³⁶

³⁵ Cyllideb Ddrafft 2015-16, Llywodraeth Cymru, Tudalen 20

³⁶ Jonathan Brentnall, Ymgynghorydd Addysg, Tystiolaeth Ysgrifenedig, **FIG 19**

77. Dywedodd Achub y Plant wrth y Pwyllgor na fu cynnydd anferthol mewn gweithgareddau a ariennir gan y GAD er mwyn lliniaru'r golled bosibl. Roeddent hefyd yn feirniadol o lefel yr asesiad effaith a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru:

“We also believe that the government failed in its duty to promote children’s rights and have due regard to the UNCRC; they have not demonstrated any evidence that the amalgamation of the grants was in the best interests (Article 3) of Gypsy, Roma and Traveller children (or any other ethnic minority children); there was a failure to assess the impact on the Right to Education under Articles 28 and 29 and indeed the document was quite open in saying that it was primarily an administrative and money saving exercise that motivated the changes. Given that and their own admission that a negative impact was likely they then failed to take or propose steps to either promote equality or to protect the rights of Gypsy, Roma and Traveller children.”³⁷

Safbwynt y Pwyllgor

Roedd y Pwyllgor yn bryderus iawn o glywed am y diffyg monitro ynghylch defnydd o'r Grant Gwella Addysg (GGA) a'r diffyg gwerthuso o ran ei effaith. Bu'r Grant Addysg Plant Teithwyr a Phlant Sipsiwn a'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig blaenorol yn destun systemau monitro ac atebolwydd trylwyr yr ymddengys eu bod wedi diflannu i raddau helaeth ers cyflwyno'r GGA.

Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet rôl y pedwar consortiwm rhanbarthol ac awdurdodau lleol eu hunain wrth fonitro'r deilliannau ac effaith y GGA ar ddeilliannau addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, derbyniodd y Pwyllgor ychydig iawn o dystiolaeth ynghylch sut y mae'r consortia a'r awdurdodau lleol yn ymgymryd â monitro o'r fath. Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan y consortia yn siomedig, gan mai ychydig iawn o esboniad a gynigiwyd o'r hyn y maent yn ei wneud i fonitro defnydd ac effaith y GGA a sut y maent yn sicrhau ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau addysgol y grwpiau hyn o ddysgwyr.

Ymddengys fod peth dryswch ynghylch y berthynas rhwng yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol. Clywodd y Pwyllgor gan CLILC ac ADEW fod awdurdodau lleol i bob pwrpas yn comisiynu gwasanaethau gwella ysgolion gan y consortia, sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yn rhanbarthol mewn ffordd sy'n cael ei rhannu. Mae'n ymddangos yn aneglur a yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r consortia rhanbarthol ddwyn awdurdodau lleol i gyfrif am eu defnydd o ddyraniadau'r GGA neu a ddylai awdurdodau lleol ddwyn y consortia i gyfrif am ddeilliannau'r GGA fel rhan o'u gwaith o ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion. Yn y cyd-destun hwn, nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi mai'r consortia rhanbarthol sydd yn y sefyllfa orau i fonitro a gwerthuso defnydd o'r GGA, ac mae'n credu y dylai Llywodraeth Cymru gymryd y rôl hon ei hun.

Dyweddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn treialu 'fframwaith perfformiad addysg' gyda'r consortia rhanbarthol i fonitro'r GGA a gwerthuso'i effaith. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos nad oedd yr awdurdodau lleol a'r consortia yn gwybod llawer am hyn ac yn dweud yn lle hynny eu bod yn aros o hyd i 'fframwaith deilliannau' gael ei lunio ar gyfer y GGA. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y rhain yr un peth ond mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch y negeseuon cymysg hyn. Rydym yn annog

³⁷ Prosiect Teithio Ymlaen Achub y Plant, Tystiolaeth Ysgrifenedig, **EIG 20**

Llywodraeth Cymru i gael syniad llawer mwy pendant ynghylch y ffordd y caiff y GGA ei fonitro a'i werthuso a sicrhau bod y consortia a'r awdurdodau yn deall y disgwyliadau'n glir.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi telerau ac amodau bras ar lefel uchel ynghylch sut y dylid defnyddio'r GGA, sy'n cyd-fynd â'r amcanion strategol yn ei Gynllun Gwella Addysg, Cymwys am Oes. Roedd gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet wedi iddi ddod gerbron y Pwyllgor yn dangos nad oedd y fframwaith perfformiad addysg yn cynnwys llawer mwy na'r tri amcan lefel uchel hyn. Mae hyn yn bell o fod yn ddigonol ac yn sicr nid dyma'r fframwaith deilliannau cynhwysfawr yr oedd llawer o randdeiliaid yn ei ddisgwyl. Gwelir hyn yn amlwg yn y ffaith bod CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru yn aros o hyd am fframwaith deilliannau ac ymddengys nad ydynt yn sylweddoli mai dyna sydd wedi'i osod eisoes.

Rydym yn credu bod angen canllawiau ac amodau manylach, sy'n cyfeirio'n fwy penodol at y deilliannau a ddisgwylir gan ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig.

Mae'n amlwg i'r Pwyllgor bod cyfyngiadau o ran i ba raddau y gall Estyn adrodd ar safonau'r ddarpariaeth ar gyfer y grwpiau hyn o ddysgwyr ac unrhyw effaith y mae'r newid i'r trefniadau cyllid grant wedi'i chael arnynt drwy ei arolygiadau safonol. Mae'r Pwyllgor yn credu y byddai'n amserol i Estyn gynnal adolygiad thematig o'r maes hwn. Dylai hyn ganolbwyntio'n benodol ar ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, ond gallai hefyd ystyried y mater ehangach o ba mor dda y mae'r 'haen ganol' addysg (y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol) yn monitro ac yn gwerthuso deilliannau ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr. Rydym yn nodi nad yw hyn wedi cael ei gynnwys yn y cylch gorchwyl a bennodd Llywodraeth Cymru ar gyfer Estyn yn 2017-18, ond rydym yn credu y dylid cynnal adolygiad o'r fath yn y flwyddyn nesaf neu cyn gynted ag y bo modd.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y farn nad oedd yr asesiad effaith a gynhaliodd Llywodraeth Cymru adeg y penderfyniad cyn cyllideb 2015-16 yn bodloni'r disgwyliadau. Nid yw'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi ailystyried effaith y trefniadau cyllido newydd ar grwpiau penodol o ddysgwyr mewn unrhyw un o'r rowndiau cyllidebu blynyddol dilynol. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ailedrych ar ei hasesiad o effaith y model cyllido newydd a chynnal asesiad trylwyr wedi'i ddiweddarau sy'n rhoi sylw dyledus i hawliau plant ac ystyriaethau cydraddoldeb.

Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r trefniadau y mae wedi'u rhoi ar waith i fonitro'r defnydd o'r Grant Gwella Addysg a gwerthuso'i effaith, yn benodol mewn perthynas â deilliannau addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad mwy strategol o ran rhoi cyfarwyddyd ar sut y dylid defnyddio'r Grant Gwella Addysg er budd dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i adolygu effeithiolrwydd y fframwaith perfformiad addysg y mae'n disgwyl i'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol ei ddefnyddio i werthuso deilliannau'r Grant Gwella Addysg. Dylai'r fframwaith gyfeirio'n llawer mwy penodol at y deilliannau a fwriedir ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma

a Theithwyr, a dysgwyr lleiafrifoedd ethnig, fel bod gan bawb sy'n cyfrannu at ddarparu gwasanaethau i'r dysgwyr hyn ddealltwriaeth glir o ddisgwyliadau'r Grant Gwella Addysg.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gynnig mwy o eglurder ynghylch rôl benodol Llywodraeth Cymru, y consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion o ran monitro ac olrhain deilliannau ar gyfer y grwpiau hyn o ddysgwyr.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad effaith trylwyr wedi'i ddiweddarau o'r penderfyniad i gyfuno'r grantiau blaenorol yn y Grant Gwella Addysg o 2015-16, gan gyfeirio'n benodol at ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Dylai'r asesiad hwn roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a chyfrifoldebau statudol Llywodraeth Cymru ynglŷn â hawliau a chydraddoldeb plant. Dylai'r asesiad effaith hefyd ystyried pa mor llwyddiannus y bu camau gweithredu Llywodraeth Cymru i liniaru unrhyw risgiau o effaith negyddol yn sgil y penderfyniad.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, gan roi'r diweddaraf ar y sefyllfa ers ei adroddiad thematig diwethaf yn 2011. Dylai adolygiad Estyn ystyried effaith y trefniadau ariannu newydd ers 2015-16 a dylai hefyd ystyried y mater ehangach o ba mor dda y mae 'haen ganol' addysg (y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol) yn monitro ac yn gwerthuso'r deilliannau ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr. Dylai Estyn gynnal yr adolygiad hwn fel rhan o'i gylch gwaith yn 2017-18 neu cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol.

05. Lefelau cyllid, effaith ar adnoddau awdurdodau lleol a data ynghylch niferoedd dysgwyr

Dyraniadau GGA Llywodraeth Cymru

78. Cyn cyflwyno'r Grant Addysg Gwella (GGA) yn 2015-16, roedd y Grant Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr blaenorol yn werth £1.1 miliwn i awdurdodau lleol yn ei flwyddyn olaf, sef 2014-15, ac roedd y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yn werth £8.5 miliwn. Cyfanswm yr 11 o grantiau blaenorol oedd £153 miliwn yn 2014-15.

79. Pan drosglwyddodd Llywodraeth Cymru yr 11 o grantiau etifeddiaeth i'r GGA newydd, gostyngodd y cyllid at ddibenion y Grant Plant Sipsiwn a Phlant Teithwyr a'r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig o £9.6 miliwn i £8.0 miliwn. Yn ogystal â bod yn ostyngiad o'i gymharu â lefel 2014-15, roedd hyn hefyd yn llai na'r £11.6 miliwn dangosol a gyllidebwyd ar gyfer 2015-16 adeg cyllideb 2014-15.

80. Dyrannodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £141 miliwn i'r GGA cyfun newydd yn 2015-16. Ar y pryd, cadarnhaodd fod hyn £11.6 miliwn yn llai na chyfanswm ei rannau unigol yn 2014-15. Roedd dyraniad y gyllideb ar gyfer 2016-17 yn ostyngiad pellach i £135 miliwn, a dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor yn ystod y gwaith o graffu ar y gyllideb yn hydref 2016 mai £133 miliwn fydd gwerth y GGA yn 2017-18.

81. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw fanylion ynghylch sut y caiff dyraniadau'r GGA eu rhannu rhwng gwahanol ddibenion y grant yn 2016-17 na 2017-18, er enghraifft cefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Mae hyn oherwydd nad yw'n casglu'r wybodaeth hon.

82. Mae tabl 1 yn dangos dyraniad Llywodraeth Cymru i bob consortiwm rhanbarthol o'r GGA yn y ddwy flynedd gyntaf. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio methodoleg gyllido ar gyfer pennu'r swm i bob consortiwm, sy'n seiliedig ddyraniadau'r 11 o grantiau etifeddiaeth, gyda data diweddaraf y cyfrifiad ysgolion wedi'u hychwanegu. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu rhywfaint o arian cyfatebol ar gyfer y GGA, sef tua £11 miliwn fel arfer yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet.

Tabl1: Dyraniadau Llywodraeth Cymru o'r GGA i'r consortia rhanbarthol (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)

	£ miliwn	
	2015-16	2016-17
CSC (Canolbarth y De)	43.461	41.359
ERW (De-orllewin a'r Canolbarth)	39.978	38.079
GwE (Gogledd)	30.920	29.398
EAS (De-ddwyrain)	26.661	25.446
Total	141.021	134.282

83. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod amod ar faint o'r GGA y gall y consortia rhanbarthol ei ddefnyddio i dalu am gostau gweinyddol. Yn 2015-16, rhoddwyd terfyn o 1.5% ar hyn, cyn ei ostwng ymhellach i 1% yn 2016-17. Rhaid i'r Consortia ddirprwyo o leiaf 80% o'r GGA i ysgolion.

Gwybodaeth gan y consortia rhanbarthol

84. Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig gan Gonsortiw Canolbarth y De yn dangos ei fod yn darparu dyraniadau unigol ar gyfer cyflawniad lleiafrifoedd ethnig i'r pum awdurdod lleol yn ei ranbarth, sydd i

bob pwrpas yn cadw elfen o neilltuo o fewn y GGA. Roedd cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd gan Gonsortiw Canolbarth y De yn 2015-16 yn debyg i 2014-15, ond roedd gostyngiad o 5% i £4.4 miliwn yn 2016-17.


85. Mae'r wybodaeth ar wefan consortiw GwE (Gogledd Cymru) yn nodi y rhoddwyd 9.41% o'i ddyraniad ar gyfer 2016-17 i awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth uniongyrchol mewn ysgolion a dargedir (ee cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol a disgyblion Sipsiwn/Teithwyr). Fodd bynnag, nid yw'n hysbys faint o'r cyllid hwn a oedd yn benodol ar gyfer y grwpiau hyn o ddysgwyr yn hytrach nag yn fwy cyffredinol ar gyfer gwella ysgolion.

Data eraill ar gyllid

86. Darparodd Dr Jonathan Brentnall ddata i'r Pwyllgor sy'n nodi, ers dechrau'r degawd hwn, bod niferoedd y dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig wedi codi, a bod y cyllid ar gyfer ymyriadau penodol i gefnogi eu deilliannau addysgol wedi gostwng. Cafodd rywfaint o'r wybodaeth hon yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol drwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a'i dehongli i lunio'r casgliadau canlynol:

- Cynyddodd nifer y dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr a dysgwyr o leiafrifoedd o 30,745 i 47,628 rhwng 2009/10 a 2015/16.
- Yn ystod yr un cyfnod (2009/10 i 2015/16), mae cyfanswm y cyllid grant (y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a'r Grant Sipsiwn-Teithwyr, a'r GGA wedi hynny) wedi gostwng o £10.5 miliwn y flwyddyn i £8.9 miliwn.
- Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yng nghyfanswm y cyllid grant wedi'i dargedu'n flynyddol fesul disgybl Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac fesul disgybl o leiafrifoedd ethnig, o £342 yn 2009/10 i £187 yn 2015/16.
- Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 45% mewn cyllid fesul disgybl rhwng 2009/10 a 2015/16. Roedd y gostyngiadau blynyddol mwyaf yn 2014/15 a 2015/16.

87. Mae data Dr Brentnall ynghylch cyllid fesul disgybl i'w gweld isod. Mae'n cyfeirio'n benodol at ddisgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr a disgyblion o leiafrifoedd ethnig.



Ffigur 1: Canran y gostyngiad yn y cyllid fesul disgybl ar gyfartaledd (Ffynhonnell: Dr Jonathan Brentnall)

88. Roedd Dr Brentnall yn dadlau bod cyflwyno'r GGA a'r gofyniad bod 80% o'r grant yn cael ei ddirprwyo yn uniongyrchol i ysgolion wedi gwaethygu effaith y gostyngiadau mewn cyllid. Tynnodd sylw at yr effaith a gaiff hyn ar wasanaethau canolog awdurdodau lleol ar gyfer Teithwyr a lleiafrifoedd ethnig, a phwysleisiodd Achub y Plant fod eu rôl hefyd yn bwysig iawn o ran cyrraedd y grwpiau hyn o ddysgwyr. Dywedodd Trudy Aspinwall wrth y Pwyllgor:

“For schools to keep that relationship, that connection and that support going, that’s just not possible, because one day they might be here, and another day they might be there and the next day they might be over the border.

But, actually, the centralised services were able, particularly through their long-established relationships with families, to keep that contact.”³⁸

89. Daeth Dr Brentnall i'r casgliad, o'r wybodaeth a gafodd gan awdurdodau lleol, y bu gostyngiad o 17.7% hyd at ddiwedd mis Awst 2015 yn y staff cyfwerth ag amser llawn sy'n arbenigo ym maes addysg a chyflawniad dysgwyr Sipsiwn, Teithwyr a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Tynnodd sylw hefyd at yr effaith anghyfartal ar staff o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, gan ddweud y bu gostyngiad o 21.8% yn eu lefelau staffio o'i gymharu â 16.2% ymhlith staff Gwyn Cymreig/Prydeinig.

Ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet

90. Pan holodd y Pwyllgor yr Ysgrifennydd Cabinet am y gostyngiad ymddangosiadol mewn arian y pen, atebodd:

“One particular contributor to the committee’s work has laid that evidence before the committee. Other evidence suggests that that isn’t necessarily the case. As I said to Julie, undoubtedly, where there have been changes in service—and there have been, like, for instance, Swansea has restructured its service—it’s difficult to unpick whether that’s a direct result of the

³⁸ Trudy Aspinwall, Prosiect Teithio Ymlaen Achub y Plant, *Tystiolaeth Lafar*, 8 Rhagfyr 2016

amalgamation of the EIG, or whether that reflects other pressures within local authority budgets.

One of the reasons for the amalgamation of the grant was to try and mitigate against loss of resource, because we need to get the best value out of the money that we are putting into educational improvement in very, very difficult circumstances that previous Ministers have found themselves in. And it was felt that, actually, if you amalgamated the grant into one and spent less money on administration and monitoring, that would allow for more of the money to reach the front line.”³⁹

91. Dywedodd Kirsty Williams hefyd nad oedd awdurdodau lleol a/neu CLILC wedi mynegi'r pryder hwn wrthi hi:

“It’s certainly not feedback that I have had in discussions with the Welsh Local Government Association. It’s not something that they have expressed concerns to me about. Believe me, they’ve got a lot of concerns that they bring to my table, as do Estyn, who have a lot of concerns that they bring to my table, but the amalgamation of the grant or a diminution of these services is not something that they have reported back to me.”⁴⁰

92. Heriodd Dr Brentnall y ffaith ei bod yn ymddangos bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cwestiynu ei ddata. Nid yw'r Ysgrifennydd Cabinet wedi darparu unrhyw wybodaeth nag ystadegau amgen i ymhelaethu ar hyn.

Sicrwydd cyllid yn y dyfodol

93. Roedd y tystion a oedd yn rhoi tystiolaeth ar ran y consortia rhanbarthol yn tynnu sylw at yr heriau i wasanaethau yn sgil y nifer gynyddol o ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig, yn enwedig plant sy'n ceisio lloches a phlant sy'n ffoaduriaid sydd newydd gyrraedd ar eu pen eu hunain. Dywedodd Martin Dacey, Pennaeth Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GEMS), wrth y Pwyllgor:

“If nobody takes anything else away from this, what I would like people to understand is that we cannot underestimate the challenge for authorities who have never had this type of child before. Unaccompanied asylum seeker children and refugee asylum seeker children present with a unique set of challenges and issues. It is absolutely essential you have the expertise then to go in to help upskill those schools when faced with that—essential.”⁴¹

94. Ychwanegodd Gill James o Gyngor Caerdydd, sy'n cadeirio fforwm gwasanaethau lleiafrifoedd ethnig awdurdodau lleol:

“Certainly that was the message from all local authorities. They were concerned about the uncertainty of the funding going forward when they had increasing numbers of children coming from different routes, and that was certainly something that they really wanted to raise. And not knowing how

³⁹ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, **Tystiolaeth Lafar**, 12 Ionawr 2017

⁴⁰ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, **Tystiolaeth Lafar**, 12 Ionawr 2017

⁴¹ Martin Dacey, Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru, **Tystiolaeth Lafar**, 8 Rhagfyr 2016

much you're going to get from year to year makes it very difficult to plan in terms of staffing, and that is an issue.”⁴²

95. Disgrifiodd Helen Morgan-Rees o gonsortiw m ERW (y de-orllewin a'r canolbarth) yr anawsterau ynghylch cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol yng nghanol ansicrwydd ynghylch cyllido yn y dyfodol:

“Once the money is delegated to directors and local authorities, it's within the local authority's gift then to decide how they want to have a sustainability model in terms of funding. But it's very difficult if the total amount of the EIG from one year to the next is reducing. So, it's very difficult to project. We don't know how much EIG, or if it will be EIG in April, that we'll get, so it's very difficult to project into the future and to have a sustainable plan.”⁴³

96. Dywedodd Ms Morgan-Rees hefyd:

“[Local authorities in South West and Mid Wales) lost staff because they're not sure about the certainty of the service, the prioritisation of the service, the status of the service. So, staff in Swansea, for example, have been reduced from 66 full-time equivalents to 44.”⁴⁴

97. Dywedodd CLILC nad yw telerau ac amodau'r GGA yn cynnig digon o hyblygrwydd gan fod angen cyfran helaeth o'r grant i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen (ychydig o dan £100 miliwn o'r cyfanswm o £141 miliwn yn 2015-16). Mae dyletswyddau statudol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol lynu atynt o ran cymarebau staff/disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen.

98. Dywedodd CLILC wrth y Pwyllgor:

“I think, as well, there were unexpected consequences of merging one or two very large grants with a few small grants. I think that the foundation phase has had a disproportionate impact on the EIG because the terms and conditions around the foundation phase grant, and specifically the pupil-staff ratios, have meant that the cut in the funding inevitably fell on the other elements of the EIG. But authorities are working as effectively as they can to mitigate those cuts.”⁴⁵

Dibynadwyedd y data

99. Clywodd y Pwyllgor fod uno'r grantiau blaenorol wedi achosi goblygiadau o ran dibynadwyedd y data sydd ar gael ar nifer y dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig.

100. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data am ddisgyblion ar gofrestrau ysgolion, fel y'u cofnodwyd gan benaethiaid ar ddiwrnod y cyfrifiad ysgol ym mis Ionawr bob blwyddyn. Yr enw ar hyn yw'r **Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Dysgwyr (CYBLD)**. Mae'r data ar gyfer 2015/16, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016, yn dangos bod 996 o ddisgyblion o gefndir Sipsiwn/Roma, sef

⁴² Gill James, Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiw m Canolbarth y De, **Tystiolaeth Lafar**, 8 Rhagfyr 2016

⁴³ Helen Morgan-Rees, Ein Rhanbarth ar Waith (ERW), **Tystiolaeth Lafar**, 8 Rhagfyr 2016

⁴⁴ Helen Morgan-Rees, Ein Rhanbarth ar Waith (ERW), **Tystiolaeth Lafar**, 8 Rhagfyr 2016

⁴⁵ Dr Chris Llewelyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, **Tystiolaeth Lafar**, 8 Rhagfyr 2016

0.1% o'r holl ddisgyblion. Mae'r data yn cofnodi 10.1% o'r holl ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifoedd ethnig, sy'n cyfateb i ychydig o dan 40,000 o ddisgyblion.

101. Fodd bynnag, nododd Dr Brentnall dri math o ddata a gafodd drwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn nodi mai 957 oedd nifer y disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn 2014/15 (yn ôl data swyddogol CYBLD), neu 1,682 neu 2,447, yn dibynnu ar ba fesur a ddefnyddiwyd. Dywedodd fod nifer y disgyblion o leiafrifoedd ethnig yn amrywio rhwng 36,332 (CYBLD) a 40,184 neu 45,086.⁴⁶

102. Hefyd, tynnodd Achub y Plant sylw at bryderon ynghylch dibynadwyedd y data, gan ddweud:

“With the introduction of the EIG, the Welsh Government have now lost a centrally collated system that gave an overview of numbers of Gypsy, Roma and Traveller children in Wales.”⁴⁷

103. Cydnabu Trudy Aspinwall nad yw hyn yn broblem hollol newydd a bod amcangyfrif rhy isel o niferoedd y plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr phlant yn broblem hirhoedlog. Fodd bynnag, dywedodd wrth y Pwyllgor:

“But, whilst you had that bespoke grant with specialist staff who knew families and who knew children and young people, who were targeting and working with and approaching those families, then there wasn't such a big issue. But once that's gone, I would query how local authorities are counting the number of children and young people that are Gypsy, Roma and Traveller, who may need—not always, but may need—particular bespoke support. I just think that is the real issue (...)

But in terms of data collection, I think that, for me, it's an issue of you can't effectively allocate resources if you don't know how many children and young people there are in your schools or outside of your schools who may need work in terms of outreach work or engagement work. But, actually, it's not going to happen. If you're not registered at school and you're not registered as Gypsy/Traveller, you wouldn't have got the old grant. But now, I don't think you have much chance, really, of getting any resources allocated to you as a child who may need support in your education.”⁴⁸

104. Cadarnhaodd Martin Dacey o GEMS fod natur annibynadwy y data CYBLD yn broblem i awdurdodau lleol a bod gan wasanaethau arbenigol canolog rôl bwysig o ran llunio data cywirach:

“Effectively, we have tried to go on the PLASC data that we've received. Unfortunately, we have seen that that is unreliable for a myriad of different reasons. We could probably spend the rest of the meeting discussing why it's unreliable—but, it's unreliable. So, effectively, this is time consuming, it is, but, what we do is we go direct to schools ourselves and we work with them to update on a school level the WAG language stages and the key information to

⁴⁶ Jonathan Brentnall, Ymgynghorydd Addysg, Tystiolaeth Ysgrifenedig, **EIG 19** [Diweddarodd Dr Brentnall ei ystadegau mewn e-bost diweddarach i'r Pwyllgor]

⁴⁷ Prosiect Teithio Ymlaen Achub y Plant, Tystiolaeth Ysgrifenedig, **EIG 20**.

⁴⁸ Trudy Aspinwall, Prosiect Teithio Ymlaen Achub y Plant, **Tystiolaeth Lafar**, 8 Rhagfyr 2016

do with language background, ethnic codes, those types of things, and then we create our own databases.”⁴⁹

Safbwynt y Pwyllgor

Roedd y Pwyllgor yn pryderu o glywed tystiolaeth yn awgrymu bod y cyllid wedi'i dargedu, drwy'r grantiau blaenorol ac yn dilyn cyflwyno'r Grant Gwella Addysg, fesul disgybl Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac fesul disgybl o leiafrifoedd ethnig, bron wedi haneru rhwng 2009/10 a 2015/16. Mae'r Pwyllgor yn nodi yr ymddengys bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn anghytuno â'r data hyn ac yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio ymhellach a darparu ei data ei hun, os yw'n wahanol i'r hyn a roddwyd i'r Pwyllgor.

O ystyried yr ymddengys bod nifer y dysgwyr, y bwriedir i'r cyllid eu cefnogi, wedi codi'n sylweddol a'r ffaith bod cyllidebau wedi aros yr un peth neu wedi gostwng hyd yn oed, mae'n debygol bod y ddarpariaeth wedi gwanhau. Mae'r mater hwn yn debygol o ddod yn fwy perthnasol wrth i awdurdodau lleol gymryd cyfrifoldeb am fwy o blant sy'n ffoaduriaid a phlant sy'n ceisio lloches.

Nododd y Pwyllgor nad oedd arweinwyr llywodraeth leol i'w gweld yn pryderu'n ormodol am yr effaith ar staffio yn y meysydd gwasanaeth awdurdodau lleol hyn yn y blynyddoedd diwethaf. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am ansicrwydd ynghylch diogelwch y cyllid yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau addysg i deithwyr a chyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig, a thystiolaeth gan Dr Brentnall yn awgrymu gostyngiadau sylweddol o ran staffio. Nid yw'n glir i'r Pwyllgor i ba raddau y mae hyn oherwydd y model cyllido newydd a gyflwynwyd yn 2015-16, tueddiadau tymor hwy yn y cyllid ar gyfer y meysydd gwasanaeth hyn, neu bwysau cyllidebol mwy generig ar awdurdodau lleol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod anghydbwysedd rhwng yr elfennau unigol sy'n rhan o'r GGA. Defnyddir rhan fawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a chlywodd y Pwyllgor fod perygl i elfennau llai y GGA ysgwyddo mwy o faich y gostyngiadau i gyfanswm yr arian sydd ar gael i'r GGA, yn enwedig os ydynt yn wasanaethau anstatudol. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai elfennau dewisol fel gweithgareddau i gefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig gael eu hepgor yn lle cyfrifoldebau mwy a statudol fel y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r Pwyllgor yn credu bod angen gwneud mwy i gofnodi data cywirach a mwy dibynadwy am niferoedd y dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn arbennig. Ymddengys bod cyfuno'r grantiau blaenorol a'r pwysau o ganlyniad i hynny ar rôl gwasanaethau canolog awdurdodau lleol wedi gwaethygu'r anawsterau hanesyddol o bennu data cadarn ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr. Clywodd y Pwyllgor fod dyraniadau'r GGA yn seiliedig ar y grantiau etifeddiaeth blaenorol a'u bod yn cael eu diweddarau'n unol â'r data cyfrifiad ysgolion blynyddol diweddaraf. Os nad yw'r data cyfrifiad hwn yn ddibynadwy o ran cofnodi pob dysgwr perthnasol, mae hyn yn codi cwestiwn ynghylch a yw dyraniadau cyllid yn adlewyrchu'n ddigonol nifer y dysgwyr y mae angen cymorth arnynt.

Yn aml, mae gwasanaethau awdurdodau lleol mewn sefyllfa well nag ysgolion i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc o'r cefndiroedd hyn, ac, yn hanfodol, â'u teuluoedd. Mae'r Pwyllgor yn deall yr amcan o ddirprwyo cyfrannau mor uchel â phosibl o gyllid i ysgolion, sy'n cyd-fynd â'r ymagwedd at gyllidebau ysgolion yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried

⁴⁹ Martin Dacey, Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru, *Tystiolaeth Lafar*, 8 Rhagfyr 2016

a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn sgil y dull hwn, yn enwedig o ran gallu gwasanaethau awdurdod lleol i weithio gyda dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig.

Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol i gael gwell dealltwriaeth o faint o gyllid sy'n cael ei ddarparu i gefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Dylai hefyd ystyried nifer y dysgwyr y mae'r cyllid hwn yn eu cefnogi, yn enwedig yng ngoleuni'r cynnydd yn nifer y plant sy'n ceisio lloches a phlant sy'n ffoaduriaid, a rhoi asesiad i'r Pwyllgor o lefelau cyllido fesul disgybl.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol i asesu effaith tueddiadau cyllido tymor hir a'r trefniadau cyllid grant newydd ar feysydd gwasanaeth perthnasol yn yr awdurdod lleol.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir cofnodi data mwy dibynadwy a chywir am niferoedd y dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod dyraniadau o'r Grant Gwella Addysg mewn perthynas â'r grwpiau hyn o ddysgwyr yn seiliedig ar y data mwyaf cyfoes a dibynadwy.

06. Gwella deilliannau

Strategaethau Llywodraeth Cymru

105. Mae gan Lywodraeth Cymru Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, Teithio at Ddyfodol Gwell, a chyhoeddodd ddiweddariadau ym mis Tachwedd 2013 a mis Mawrth 2016. Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o amcanion yn ymwneud ag addysg. Yn ei diweddariad ym mis Mawrth 2016, derbyniodd Llywodraeth Cymru fod cyrhaeddiad a phresenoldeb disgyblion Sipsiwn a Theithwyr yn rhy isel o hyd a'u bod yn wynebu cyfres unigryw o rwystrau o ran ymgysylltiad.

106. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymchwil am addysg Sipsiwn a Theithwyr yn 2014, a oedd yn dilyn adroddiad thematig gan Estyn yn 2011.

107. Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddogfen Wybodaeth, wedi'i hanelu at arweinwyr ac ymarferwyr ar draws y system addysg yng Nghymru, sef Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig mewn Addysg yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig yn rhan gynhenid o'i rhaglen gwella ysgolion ehangach, gan ddweud ei bod yn ymrwymo i wella llesiant a chyrhaeddiad addysgol disgyblion o leiafrifoedd ethnig, ac y bydd yn dwyn gwasanaethau i gyfrif am sicrhau deilliannau gwell i ddysgwyr.

108. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor y bydd y fersiwn wedi'i diweddarau o gynllun gwella addysg Llywodraeth Cymru, Cymwys am Oes (yng ngwanwyn 2017), yn cynnwys amcan penodol ar gyfer llesiant a chynhwysiant mewn system addysg sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac yn cefnogi pob dysgwr i gyrraedd eu potensial.

109. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu diweddarau ei strategaeth ar gyfer codi uchelgais a chyrhaeddiad ymysg disgyblion o gefndiroedd difreintiedig, Ailysgrifennu'r Dyfodol, yn 2017. Mae Achub y Plant wedi galw am roi ystyriaeth benodol i ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr pan gaiff y strategaeth ei diweddarau.

Lefelau cyrhaeddiad cyfredol

110. Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet nad yw lefelau cyrhaeddiad cyfredol rhai o'r grwpiau o ddysgwyr y canolbwyntiodd ymchwiliad y Pwyllgor arnynt yn ddigon da. Fodd bynnag, pwysleisiodd hefyd na ddylai dysgwyr o leiafrifoedd ethnig gael eu hystyried yn un grŵp homogenaidd:

“What we do know is that, for Gypsy and Traveller children, their results at GCSE level are not where we would want them to be—far below national averages. But, for many other groups of children, we see Indian and Chinese-heritage children way outperforming white Welsh children, and those from a Pakistani heritage or Bangladeshi heritage catching up and, in some cases, surpassing us. We still have an issue with the attainment levels of black Caribbean children. Again, that’s one particular group of children who’re not doing as well as we would like. So, I think it’s important to recognise that we can’t group all children together and that there are particular challenges for particular groups.”⁵⁰

⁵⁰ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Tystiolaeth Lafar, 12 Ionawr 2017

111. Adleisiodd Estyn hyn, gan ddweud wrth y Pwyllgor:

“In terms of minority ethnic groups generally, they’re a very different group; they’re not a homogeneous group. And most ethnic minority groups do relatively well. Over the last, sort of, five years or so, many of them have actually overtaken white British children by the end of key stage 4 in some of the major performance indicators. The main exceptions to that are black, particularly black Caribbean children from that background and, as you’ve said, Gypsy/Traveller children. It’s very concerning that even though there have been small increases over the last few years in the attainment and, indeed, the attendance of Gypsy/Traveller children, their attendance and attainment is far below what it should be. So, for example, at the main key stage 4 indicator, level 2 plus inclusive, the average for Wales is 56 per cent and for Gypsy/Traveller children it’s only 15 per cent. So, you know, it is very, very concerning.”⁵¹

Ôl-16

112. Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ysgrifenedig ar y cyd gan yr Uned Pobl a Gwaith, sef elusen annibynnol sy'n gweithio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo cyflogaeth drwy addysg a dysgu, ac Eginio, sef ymgynghoriaeth addysg. Dywedodd Pobl a Gwaith ac Eginio:

“Although young people from some ethnic minorities are now more likely to participate in higher education than their White British/Welsh counterparts, some minority groups remain under-represented and overall, ethnic minority students have tended to be under-represented in prestigious universities. For many minorities from less advantaged backgrounds, wanting to take up higher education the financial costs involved is a major consideration. However, the lack of transparency around the allocation of bursaries tends to be problematic for many from ethnic minority backgrounds. The lack of fluency with career paths, qualification frameworks, certification, accreditation and gaining career advice is a well-known barrier.”⁵²

113. Er mwyn cael mynediad at gyllid, ar hyn o bryd mae'n rhaid bod gan sefydliadau addysg uwch bolisiau ac arferion 'Ehangu Mynediad' i hyrwyddo cyfleoedd i bobl o bob oed a chefnidir sydd â'r potensial i elwa o addysg uwch. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Cabinet a allai Llywodraeth Cymru wneud mwy i annog cyfranogiad gan Sipsiwn-Teithwyr a lleiafrifoedd ethnig mewn addysg uwch wrth weithredu Adolygiad Diamond a'r system newydd o gyllid myfyrwyr a fydd yn cael ei chyflwyno yn 2018/19. Cyfeiriodd Kirsty Williams at ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn ei hymateb i adroddiad yr Athro Syr Ian Diamond:

“If I receive responses to that consultation that say this is an area to be looked at then, obviously, in consideration of how we go forward, I will look at it.”⁵³

⁵¹ Meilyr Rowlands, Estyn, **Tystiolaeth Lafar**, 30 Tachwedd 2016

⁵² Pobl a Gwaith ac Eginio, Tystiolaeth Ysgrifenedig, **EIG 08**

⁵³ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, **Tystiolaeth Lafar**, 12 Ionawr 2017

114. Hefyd, tynnodd Pobl a Gwaith ac Eginio sylw at y prinder modelau rôl o leiafrifoedd ethnig mewn ysgolion, hyd yn oed mewn ysgolion sydd â chyfran uchel o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig. Gwnaethant alw am gynllun gweithredu i annog pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig i ymuno â'r proffesiwn addysgu. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“The lack of diversity in our teaching population is very, very, very apparent, but also the difference it does make if you have teachers from a diverse—. So, Fitzalan, for instance, I recently visited, here in Cardiff, and they have physics being taught by a Spanish teacher. They said that having a teacher who has come from a different background, from a different country, whose first language isn't English, actually is a very positive role model for the diverse nature of the children in that particular school to see that teacher there. But that is a very rare example.”⁵⁴

Safbwynt y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwelliant cymharol ddiweddar yng nghyfraddau cyrhaeddiad dysgwyr Sipsiwn/Roma ond mae'n pryderu o hyd eu bod yn rhy isel. Enillodd 53.8% bum TGAU neu ragor ar raddau A*-C (trothwy lefel 2) yn y cyfnod 2014-16, o'i gymharu ag 85.3% ymhlith eu cyfoedion. Enillodd 24.4% bum TGAU neu ragor ar raddau A*-C gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a Mathemateg (trothwy lefel 2 yn gynwysedig), o'i gymharu â 59.0% ar gyfer pob disgybl. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y bwlch wedi lleihau ers 2010, ac yn nodi'r gwelliant arbennig yn ystod 2014-16, ond mae'n credu bod y bwlch yn parhau i fod yn annerbyniol o fawr.

Er gwaethaf y gwelliant diweddar, mae cyrhaeddiad dysgwyr Sipsiwn/Roma o ran y trothwy lefel 2 cynwysedig 7.2 pwynt canran yn is na'r mesur cyffredinol ar gyfer anfantais – pwy sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim – sy'n dangos eu bod y tu ôl i ddisgyblion eraill o dan anfantais o hyd. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn her benodol sicrhau bod y dysgwyr hyn yn yr ysgol a/neu â mynediad at addysg, fel sydd i'w weld yn eu lefelau cymharol uchel o absenoldeb. Mae'r cyfraddau presenoldeb wedi gwella ymysg dysgwyr Sipsiwn/Roma a Theithwyr, fel y maent wedi gwella ar gyfer pob disgybl, ond mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru barhau i ganolbwyntio ar gyfraddau presenoldeb ar gyfer y grwpiau hyn o ddysgwyr fel rhan o ymdrech gynhwysfawr i wella'u deilliannau addysgol.

Mae perfformiad y rhan fwyaf o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn gymharol gadarnhaol, ac mae cyrhaeddiad yr holl grwpiau a ddiffinnir yn y data yn uwch na chyrhaeddiad eu cyfoedion. Yr eithriad yw disgyblion Du/Du Prydeinig. Mae eu cyrhaeddiad o ran y trothwy lefel 2 yn gynwysedig 5.7 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd. O fewn y grŵp hwn o ddisgyblion, 40% yw'r gyfradd ar gyfer disgyblion Du Caribiaidd, sef 19 pwynt canran islaw'r cyfartaledd ar gyfer pob disgybl. Mae 47.4% o ddisgyblion ethnigrwydd cymysg Gwyn a Du Caribiaidd yn cyrraedd y trothwy lefel 2 yn gynwysedig. Mae angen dull gweithredu wedi'i dargedu'n well i wella cyrhaeddiad ymysg grwpiau lleiafrifoedd ethnig penodol, gan ganolbwyntio ar grwpiau o ddysgwyr y mae eu lefelau angen eu gwella'n arbennig.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y gellid gwneud mwy i ymgysylltu â grwpiau penodol o leiafrifoedd ethnig, a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn arbennig, mewn addysg a hyfforddiant ffurfiol y tu hwnt i 16 oed. Mae gan lawer o grwpiau o leiafrifoedd ethnig lefelau cyfranogiad uwch na'r cyfartaledd mewn

⁵⁴ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Tystiolaeth Lafar, 12 Ionawr 2017

addysg uwch. Fodd bynnag, byddai manteision wrth olrhain unigolion neu grwpiau o ddysgwyr nad ydynt yn ymgysylltu neu y mae eu cyflawniad yn wael hyd at 16 oed, yn hytrach na'u gadael y tu allan i'r system o hyd.

Mae diffyg modelau rôl yn y proffesiwn addysg. Gallai mynd i'r afael â hyn helpu i ysgogi ac annog dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a grwpiau penodol o ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig i ymgysylltu'n gadarnhaol mewn addysg.

Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i wella deilliannau addysgol ymhlith dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gweithio i gau'r bwloch rhyngddynt a'u cyfoedion. Dylai hyn gynnwys ffocws penodol arnynt fel grŵp penodol o ddysgwyr ac ni ddylai ddibynnu'n llwyr ar fentrau mwy cyffredinol i godi cyrhaeddiad pawb.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i wella deilliannau addysgol grwpiau penodol o leiafrifoedd ethnig sydd â chyrhaeddiad is na'r cyfartaledd ar gyfer pob disgybl, yn enwedig disgyblion Du neu Ddu Prydeinig, a disgyblion ethnigrwydd cymysg Gwyn a Du Caribiaidd. Dylai hyn gynnwys ffocws penodol arnynt fel grŵp penodol o ddysgwyr ac ni ddylai ddibynnu'n llwyr ar fentrau mwy cyffredinol i godi cyrhaeddiad pawb.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried beth mwy y gellir ei wneud i gefnogi pobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sydd mewn perygl o dangyflawni neu ymddieithrio, i gyfranogi mewn addysg bellach ac addysg uwch. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid datblygu hyn o dan y trefniadau newydd ar gyfer cyllid myfyrwyr yn dilyn Adolygiad Diamond.

Safbwyntiau plant a phobl ifanc

115. Mae'r prosiect Teithio Ymlaen gan Achub y Plant yn gweithio gyda phobl ifanc, rhwng 11 ac 19 oed yn gyffredinol, o gefndiroedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Nod y prosiect yw cefnogi hawliau a chyfranogiad pobl ifanc, gan gynnig cyfleoedd i feithrin eu hyder a'u sgiliau ac ymgysylltu â llunwyr polisi ar faterion sy'n effeithio arnynt.

116. Rhan bwysig o'r prosiect Teithio Ymlaen felly fu casglu safbwyntiau'r bobl y maent yn gweithio gyda hwy. Cefnogodd Achub y Plant y bobl ifanc wrth lunio adroddiad, **Arfer Da mewn Addysg: Prosiect Ymchwil Cymheiriaid** (2016), sy'n cynnwys 12 o argymhellion gan y bobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr eu hunain. Mae'r argymhellion hyn yn canolbwyntio ar dair prif neges y bobl ifanc i ysgolion ac awdurdodau addysg:

- Byddwch yn ymwybodol o'n diwylliant
- Byddwch yn ymwybodol o'r gwahaniaethau rhyngom a'r gymuned sefydlog
- Opsynau addysg hyblyg a phresenoldeb rhan-amser ar gyfer pob disgybl ledled Cymru

Safbwynt y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gymryd sylw o'r hyn a ddywedodd y bobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu hadroddiad ac ystyried sut y gallant fwrw ymlaen â hyn yn eu hargymhellion.

Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried adroddiad y bobl ifanc a weithiodd gyda'r prosiect Teithio Ymlaen gan Achub y Plant, **Arfer Da mewn Addysg: Prosiect Ymchwil Cymheiriaid** (2016) a sut y gall fwrw ymlaen â'u hargymhellion. Dylai Llywodraeth Cymru ledaenu'r adroddiad ar draws y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol a gofyn iddynt ddilyn yr argymhellion cyn belled ag y bo modd. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd ar y cynnydd yn y 12 mis nesaf.

Atodiad A - Rhestr o'r dystiolaeth

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yma: [Trawsgrifiadau Cyfarfodydd](#)

Dyddiad	Enw a sefydliad
30 Tachwedd 2016	Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd EM, Estyn Claire Morgan, Cyfarwyddwr Strategol, Estyn Farrukh Khan, Arolygydd EM, Estyn Dr Jonathan Brentnall, Ymgynghorydd Addysg
8 Rhagfyr 2016	Trudy Aspinwall, Uwch Swyddog Rhaglen - Prosiect 'Teithio Ymlaen' Achub y Plant Y Consortia Rhanbarthol Gill James, Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De Helen Morgan Rees, Pennaeth Canolfan y Dwyrain – Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) Martin Dacey, Pennaeth Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GEMS) – Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru (EAS) Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Dr Chris Llewelyn, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth – CLILC Nick Batchelar, Cyfarwyddwr Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru
12 Ionawr 2016	Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Steve Davies, Cyfarwyddwr, y Gyfarwyddiaeth Addysg Stephen Gear, Pennaeth Cefnogi Cyflawniad a Diogelu

Atodiad B - Tystiolaeth ysgrifenedig

Cyfeirnod	Sefydliad
EIG 01	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
EIG 02	Ysgol Gynradd Gatholig
EIG 03	Ysgol Gynradd Gatholig St Margaret
EIG 04	Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ioan Llwyd
EIG 05	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent - Cyfarwyddiaeth Addysg
EIG 06	Y Ganolfan ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc, Prifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn
EIG 07	Canolfan Cymru ar gyfer Tegwch mewn Addysg, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
EIG 08	Pobl a Gwaith ac Eginio
EIG 09	Awdurdodau Addysg Lleol Gogledd Cymru (GwE)
EIG 10	Ymwelydd Iechyd – Abertawe
EIG 11	Tîm Cymorth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAS) – Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
EIG 12	Estyn
EIG 13	Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT Cymru)
EIG 14	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
EIG 15	Comisiynydd Plant Cymru
EIG 16	Awdurdod Lleol Caerdydd Consortiwm Canolbarth y De
EIG 17	Gwasanaeth Cyflawniad Addysgol (EAS)
EIG 18	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
EIG 19	Dr Jonathan Brentnall
EIG 20	Teithio Ymlaen
EIG 21	Fforwm GRT Castell-nedd Port Talbot
EIG 22	Dinas a Sir Abertawe
EIG 23	Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol Bae Abertawe (SBREC) a Fforwm Sipsiwn a Theithwyr Bae'r Gorllewin
EIG 24	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
EIG 25	Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)
EIG 26	Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig Sir Gaerfyrddin
EIG 27	Cyngor Bro Morgannwg
EIG 28	Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Tystiolaeth ychwanegol a ddaeth i law

Cyfeirnod	Sefydliad
<u>CYPE(5)-06-17</u>	Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
<u>CYPE(5)-04-17</u>	Estyn
<u>CYPE(5)-01-17</u>	Dr Jonathan Brentnall
<u>CYPE(5)-14-16</u>	Prosiect Teithio Ymlaen Achub y Plant